
# Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP)

Rhondda Cynon Taf



**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**
**This document is also available in English**

# Byrfoddau

Sponsors:

Delivery partners:

| Acronym | Diffiniad neu ystyr |
|---|---|
| CAPEX | Gwariant Cyfalaf |
| CCGT | Tyrbin Nwy Cylch Cyfun |
| CCR | Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| DESNZ | Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net |
| DFES | Senarios Dosbarthu Ynni'r Dyfodol |
| ECOFLEX | Cymhwysedd Hyblyg - Rhwymedigaeth Cwmni Ynni |
| EPC | Tystysgrif Perfformiad Ynni |
| ESC | Energy Systems Catapult |
| EV | Cerbyd Trydan |
| FES | Senarios Ynni'r Dyfodol |
| GHG | Nwy Tŷ Gwydr |
| HGV | Cerbydau Nwyddau Trwm |
| LAEP | Cynllunio ynni ardal leol neu gynllun ynni ardal leol |
| LDP | Cynllun Datblygu Lleol |
| LGV | Cerbydau Nwyddau Ysgafn |

| Acronym | Diffiniad neu ystyr |
|---|---|
| LSOA | Ardal gynnyrch ehangach haen is, dosbarthiad ardal fach yn y DU sydd wedi'i dylunio i fod â phoblogaeth debyg. |
| MSOA | Ardal gynnyrch ehangach haen ganolig, dosbarthiad ardal ganolig yn y DU sydd wedi'i dylunio i fod â phoblogaeth debyg. |
| NAEI | Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol |
| NGED | National Grid Electricity Distribution. |
| RIIO | Refeniw = Cymhellion + Arloesi + Allbynnau, fframwaith rheoleiddio a ddefnyddir gan reolydd ynni'r DU, Ofgem. |
| RLDP | Cynllun Datblygu Lleol Newydd |
| SDP | Cynllun Datblygu Strategol. |
| SLES | System Ynni Lleol Glyfar |
| SMR | Ailffurfio Methan gyda Stêm. |
| TrC | Trafnidiaeth Cymru. |
| WWU | Wales and West Utilities. |

# Cynnwys

Sponsors:

Delivery partners:


Rhagair 4

Amlinelliad o'r Cynllun Ynni Ardal Leol 5

Crynodeb gweithredol 6

1. Cyflwyniad 12
2. Y system ynni bresennol 20
3. System ynni'r dyfodol 36
4. Cynlluniau gweithredu 46
5. Y camau nesaf 62

Tabl ffigurau 67

Rhestr o'r tablau 70

Rhestr termau 71

Unedau mesur 79

Llyfryddiaeth 81


Paratowyd y Cynllun Ynni Ardal Leol hwn ar ran Rhondda Cynon Taf gan Arup, yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Afallen, ac fe'i cydlynwyd ar draws y rhanbarth gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Energy Systems Catapult yw'r Cynghorydd Technegol ar gyfer y Rhaglen LAEP yng Nghymru. Ariannwyd datblygiad y Cynllun gan Lywodraeth Cymru.

# Rhagair

Sponsors:

Delivery partners:

Mae'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) Rhondda Cynon Taf, sef map uchelgeisiol a chynhwysfawr, sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion ynni unigryw ein cymuned, gan gyd-fynd â'n nodau datgarboneiddio ehangach ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r cynllun hwn yn dyst i uchelgais y Cyngor i ddatgarboneiddio ein systemau ynni lleol ac mae'n cydnabod yr angen i adeiladu dyfodol cynaliadwy, cydnerth a ffyniannus i'n rhanbarth. Wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd ddod yn fwyfwy amlwg, mae'r angen i weithredu mewn ffordd bendant a chynaliadwy yn bwysicach nag erioed. Roedd datganiad Llywodraeth Cymru o Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019 a'r 'Argyfwng Natur' dilynol yn 2021, yn adegau allweddol, a oedd yn dangos ymrwymiad dwys i stiwardiaeth amgylcheddol genedlaethol.

Yn lleol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i chwarae ei ran i fynd i'r afael â'r gwaith aruthrol hwn a'r angen i gyfrannu'n weithredol wrth fynd i'r afael â'r her fyd-eang ehangach. Cafodd 'Hinsawdd Ystyriol RCT (2022-2025)', strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2022, ei lunio o amgylch themâu ein Cynllun Corfforaethol newydd ac mae'n nodi ein fframwaith a'n gweledigaeth strategol ar gyfer dyfodol carbon-niwtral, a gefnogir gan dargedau lleihau carbon.

Nod y Cynllun Corfforaethol newydd yw cyflawni ein Gweledigaeth Strategol ar gyfer RCT, lle gall pobl, cymunedau a busnesau dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol. Rhywle lle gallant gyflawni eu potensial llawn ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol, drwy wella Lles Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol Rhondda Cynon Taf, drwy ei bedwar Amcan Llesiant.

Mae'r LAEP yn mynd i'r afael â'r heriau ynni sy'n benodol i Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gydag atebion ymarferol a graddadwy, sy'n cwmpasu sbectrwm eang o fentrau, fel gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi a busnesau, cynyddu'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, ac archwilio technoleg arloesol.

Wrth i ni gychwyn ar y daith hon i ddatgarboneiddio system ynni leol Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n deall pwysigrwydd ymdrech gydweithredol. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae'r LAEP yn dibynnu ar ymrwymiad y Cyngor ac i'n trigolion, ein busnesau a'n harweinwyr cymunedol gymryd rhan weithredol. Gyda'n gilydd, gallwn drawsnewid y ffordd rydyn ni'n cynhyrchu, yn defnyddio ac yn meddwl am ynni.

Mae'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu wrth newid i ddyfodol ynni cynaliadwy yn sylweddol, yn yr un modd â'r cyfleoedd. Fodd bynnag, drwy groesawu newid, meithrin arloesedd a gweithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau Rhondda Cynon Taf sy'n fwy gwyrdd ac yn fwy cynaliadwy nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Y Cynghorydd Maureen Webber,**

Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

# Amlinelliad o'r Cynllun Ynni Ardal Leol

Sponsors: Delivery partners:

Mae'r cynllun hwn yn casglu tystiolaeth i nodi'r llwybr mwyaf effeithiol i Rondda Cynon Taf gyrraedd system ynni sero net

## Trosolwg

Fel rhan o'r prosiect hwn, cynhyrchwyd tair dogfen ar wahân. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynnwys yn hygyrch i amrywiaeth o gynulleidfaoedd a hefyd yn ei gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol i'r darllenydd. Dyma'r tair dogfen:

1. Mae'r **Cynllun Ynni Ardal Leol** *(y ddogfen hon)* yn cynnwys y cynllun cyffredinol sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu a chynllun ynni lleol ar draws ardal Rhondda Cynon Taf.
2. Mae'r **Adroddiad Technegol** yn cynnwys y graffiau, y siartiau, y mapiau a'r data ategol ar gyfer y canlyniadau a gyhoeddir yn y Cynllun Ynni Ardal Leol. Mae hefyd yn cynnwys rhagor o fanylion am y dull o fodelu a'r gwaith dadansoddi senarios a ddefnyddiwyd gennym. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar gais gan Energy@rctcbc.gov.uk.
3. Mae'r **Prosbectws Buddsoddi mewn Ynni Adnewyddadwy** yn tynnu sylw at gyfleoedd ynni adnewyddadwy tymor byr, rhanbarthol a lleol, sydd â'r potensial mwyaf i gael eu cyflawni ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ni fydd yn hawdd cyflawni'r newid sydd ei angen er mwyn i'r system ynni gyrraedd sero net, a bydd gofyn i ni ddefnyddio dull cydweithredol. Yn y cynllun hwn, rydyn ni'n defnyddio'r term "ni" i gyfeirio at yr amrywiaeth o bobl a sefydliadau yn Rhondda Cynon Taf a fydd yn cefnogi'r uchelgais a osodwyd ac yn gweithredu. Mae'r Cyngor a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ysgwyddo rolau hwyluso wrth ddatblygu'r LAEP hwn, ond ni fyddwn yn cyflawni'r uchelgais y mae'n ei nodi ar ein pennau ein hunain. Rydyn ni wedi datblygu'r Cynllun hwn gyda mewnbwn gan amrywiaeth o randdeiliaid, a gobeithiwn y byddwch yn cael eich ysbrydoli gan y camau mae rhanddeiliaid wedi ymrwymo iddynt, i weithredu i drawsnewid ein system ynni hefyd.

| | Cynllun Ynni Ardal Leol | Adroddiad Technegol | Prosbectws Buddsoddi mewn Ynni Adnewyddadwy |
|---|---|---|---|
| Diben | Gweledigaeth gref ar gyfer system ynni wedi'i datgarboneiddio | Methodoleg a dadansoddiad manwl | Gweledigaeth gref ar gyfer buddsoddi yn y rhanbarth |
| Cynulleidfa | Y cyhoedd, busnesau, llunwyr polisïau ac ati. | Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid technegol (e.e. gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu, rheolwyr ynni, cynllunwyr) | Buddsoddwyr a datblygwyr |

**Ffigur 0.1: LAEP a dogfennau ategol - pwrpas a chrynodeb o'r gynulleidfa**

# Crynodeb gweithredol

Mae gan Rondda Cynon Taf weledigaeth i newid y system ynni leol i fod yn sero net

*Sponsors:*

*Delivery partners:*

**Y weledigaeth** ar gyfer system ynni leol Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol yw:

**Dyfodol ynni cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon mewn ffordd gost-effeithiol ac adeiladu seilwaith ynni cadarn. Yn ganolog i'r weledigaeth hon yw ymgysylltiad a pherchnogaeth gymunedol, gan sicrhau atebion ynni hygyrch a fforddiadwy i bawb. Ein nod yw arwain mewn arloesi ynni, a chyd-fynd â thargedau sero net Llywodraeth Cymru, gan barchu ein treftadaeth naturiol a gwella llesiant cymunedol. Mae'r weledigaeth hon yn cynrychioli ymrwymiad i ddyfodol cynaliadwy, cynhwysol a llewyrchus i Rondda Cynon Taf.**

Mae **amcanion ynni** Rhondda Cynon Taf wedi eu cytuno ar y cyd. Maent yn disgrifio'r hyn y mae angen ei wneud i greu'r amodau a fydd yn sicrhau y gellir cyflawni'r LAEP hwn.

**1. Sicrhau'r gostyngiadau mwyaf posibl mewn allyriadau carbon gan leihau costau ariannol**

**2. Darparu system ynni gadarn, sy'n gallu cynyddu'r ddarpariaeth o ynni glân yn lleol er mwyn bodloni cyfran fwy o'r galw am ynni yn y dyfodol**

**3. Ymgysylltu â'r gymuned, darparu arweinyddiaeth, a pherchnogaeth o'n system ynni**

**4. Darparu atebion fforddiadwy i bawb wrth newid i darged Llywodraeth Cymru o sicrhau sector cyhoeddus sero net**

Mae ein **cynigion ynni** yn disgrifio beth sydd angen newid rhwng nawr a 2050 i ddatgarboneiddio system ynni leol Rhondda Cynon Taf a chyflawni sero net erbyn 2050.

- Ôl-osod adeiladau cyfan
- Defnyddio ynni adnewyddadwy
- Datgarboneiddio trafnidiaeth
- Meithrin Arloesedd
- Atgyfnerthu a thrawsnewid rhwydweithiau ynni

# Crynodeb gweithredol

Cynigion ynni mwy manwl ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region

*Delivery partners:* ARUP; Carbon Trust

RHONDDA CYNON TAF

### 1. Ôl-osod adeiladau cyfan

Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau presennol drwy fesurau ôl-osod sy'n ceisio lleihau'r galw cyffredinol, ar yr un pryd â symud oddi wrth systemau gwresogi sy'n defnyddio tanwydd ffosil.

**Opsiynau sy'n peri ychydig o ofid:**

- Ôl-osod
- Pympiau gwres

### 2. Defnyddio ynni adnewyddadwy

Cynyddu allbwn ynni adnewyddadwy Rhondda Cynon Taf drwy gynnal asesiad o gapasiti a defnyddio'r canlyniadau i roi arweiniad clir ar ynni adnewyddadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol.

**Opsiynau sy'n peri ychydig o ofid:**

- Paneli solar ffotofoltaig ar y to
- Tyrbinau ynni gwynt ar y tir
- Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear

### 3. Datgarboneiddio trafnidiaeth

Lleihau'r defnydd o geir yn Rhondda Cynon Taf drwy hyrwyddo defnyddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Hwyluso'r broses o fabwysiadu cerbydau trydan drwy osod mannau gwefru ar draws yr ardal.

**Opsiynau sy'n peri ychydig o ofid:**

- Gwefrwyr cerbydau trydan

### 4. Meithrin Arloesedd

Annog amrywiaeth o atebion i ddatgarboneiddio yn Rhondda Cynon Taf drwy archwilio cyfleoedd am dechnolegau arloesol.

**Opsiynau sy'n peri ychydig o ofid:**

- Cynlluniau peilot hydrogen
- Cynlluniau peilot gwresogi dŵr mwyngloddiau

### 5. Atgyfnerthu a thrawsnewid rhwydweithiau ynni

Uwchraddio'r rhwydwaith trydan fel sydd ei angen i sicrhau bod modd ateb y galw cynyddol am drydan. Uwchraddio'r rhwydwaith nwy fel sydd ei angen i sicrhau bod modd ateb y galw am hydrogen yn y dyfodol.

**Opsiynau sy'n peri ychydig o ofid:**

- Hyblygrwydd, technolegau storio

**Ffigur 0.2: Crynodeb o gynigion ynni**

# Crynodeb gweithredol

Bydd angen i system ynni leol Rhondda Cynon Taf newid yn sylweddol er mwyn cyflawni sero net erbyn 2050

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:*

ARUP

CARBON TRUST

### System ynni leol Rhondda Cynon Taf heddiw

**300** o bympiau gwres wedi'u gosod

**76,000** o gartrefi EPC D neu is


**120** o fannau gwefru cerbydau trydan

Paneli solar ffotofoltaig ar y to gyda chapasiti o **13 MW** wedi'u gosod

Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear gyda chapasiti o **30 MW** wedi'u gosod

**120 MW** capasiti gwynt wedi'i osod

### Cyfradd y newid sydd ei angen




1 Rhwng 2023 a 2030, rydyn ni'n tybio y bydd technolegau carbon isel yn cael eu mabwysiadu'n araf ond yn gyson ar gyfartaledd oherwydd ffactorau fel ymwybyddiaeth gyfyngedig, costau cyfalaf uwch, a'r angen i atgyfnerthu'r rhwydwaith.

2 O 2030 ymlaen, rydyn ni'n tybio y bydd cyflwyno technolegau'n cyflymu wrth iddynt ddod yn fwy deniadol yn fasnachol, bod cynnydd mewn ymwybyddiaeth, cadwyni cyflenwi'n datblygu, a'u bod yn dod yn fwy fforddiadwy.

3 O 2040 ymlaen, rydyn ni'n tybio y bydd technolegau carbon isel yn cael eu defnyddio'n eang a bydd lefelau mabwysiadu'r technolegau hyn wedi cyrraedd uchafbwynt, a fydd yn achosi i'r gyfradd ddefnyddio sefydlogi.

### Sut gallai system ynni leol sero net Rhondda Cynon Taf edrych yn 2050

**80,000** o bympiau gwres wedi'u gosod

**62,000** o gartrefi wedi'u hôl-osod

**17,000** o fannau gwefru cerbydau trydan

Paneli solar ffotofoltaig ar y to gyda chapasiti o **360 MW** wedi'u gosod

Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear gyda chapasiti o **1150 MW** wedi'u gosod

**210 MW** capasiti gwynt wedi'i osod

# Crynodeb gweithredol

Mae cyflawni system ynni leol sero net yn 2050 yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gallai arwain at y canlynol

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:*

ARUP

CARBON TRUST

### Effeithiau uniongyrchol

**Gostyngiad mewn allyriadau**

Allyriadau nwyon tŷ gwydr 50 gwaith yn llai nag oeddent yn 2023

**Arbedion ynni**

1,000kWh yn llai o wres yn cael ei ddefnyddio ym mhob cartref o'i gymharu â 2023

Llai na hanner yr ynni'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cludiant o'i gymharu â 2023

### Effeithiau ehangach

**Diogeledd a dibynadwyedd ynni**

Cyflenwad ynni lleol amrywiol yn gwella diogeledd ynni

**Gwelliannau i ansawdd aer**

Trafnidiaeth, gwres a phŵer yn hylosgi llai o danwydd ffosil ac yn gwella ansawdd aer

£240 miliwn o arbedion cronnus erbyn 2050

**Nifer net o swyddi y gellid eu creu**

Mae diwydiannau sero net sy'n dod i'r amlwg yn denu buddsoddiad ac yn creu swyddi lleol o ansawdd uchel

5400 o swyddi wedi'u creu yn 2050

**Fforddiadwyedd**

Mae cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n dda yn lleihau'r galw am wres, yn gwella fforddiadwyedd ac yn lleihau tlodi tanwydd

### Nodau llesiant cenedlaethol




*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - nodau llesiant*[M06]

# Crynodeb gweithredol

I gefnogi'r gwaith o drawsnewid y system ynni, gall prosiectau peilot fod yn ddefnyddiol. Mae'r cynllun ar dudalen isod yn tynnu sylw at feysydd a allai gynnig ffocws defnyddiol i'r cynlluniau peilot hyn. Mae Ffigur 0.3 yn nodi parthau sydd ag amodau arbennig o ffafriol ar gyfer cydrannau ynni penodol, sy'n golygu eu bod yn lleoliadau delfrydol ar gyfer astudiaethau peilot. Mae'r tablau cryno (isod) yn cynnwys manylion (i) y cyfle capasiti wedi'i osod, (ii) y buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer pob cydran ac (iii) cyfanswm y buddsoddiad sy'n angenrheidiol ar gyfer gosod y cydrannau ynni a'r seilwaith rhwydwaith trydan ym mhob parth erbyn 2030. Mae'r ystodau wedi'u cyfrifo drwy gymryd y canlyniadau isaf ac uchaf o bob senario ynni'r dyfodol a fodelwyd (gweler yr Adroddiad Technegol am ragor o fanylion). Sylwer: dylid dal ati i ymyrryd mewn parthau 'Cynnydd' er mwyn trosglwyddo'r ardal leol i sero net.


RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd / Cardiff Capital Region

*Delivery partners:* ARUP; CARBON TRUST

**Cydrannau ynni a awgrymir i'w treialu ym mhob parth**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (gwefrwr) | Gwefrwr cerbyda u trydan | (gwynt) | Ynni gwynt ar y tir | (insiwleiddio) | Mesurau inswleiddio |




| Parth | (i) | (ii) | (iii) |
|---|---|---|---|
| **A – Maerdy** | | | |
| Pympiau gwres | 0.35 - 0.55MW (60 - 90 o bympiau gwres) | £0.26 - 0.41m | Cyfanswm Parth A £ 3 - 14m |
| Gwefrwr cerbydau trydan | 0.06 - 0.07MW (16 - 18 o wefrwyr) | £0.05 - 0.06m | |
| **B – Middle Fan** | | | |
| Pympiau gwres | 1.3 - 2.0MW (210 - 340 o bympiau gwres) | £0.9 - 1.5m | Cyfanswm Parth B £14 - 72m |
| Gwefrwr cerbydau trydan | 0.16 - 0.21MW (40-50 o wefrwyr) | £0.13 - 0.17m | |
| **C – Ynysfeio** | | | |
| Mesurau inswleiddio | 2,500 - 2,800 o gartrefi | £10 - 140k | Cyfanswm Parth C £29 - 158m |

| Parth | (i) | (ii) | (iii) |
|---|---|---|---|
| **D – Tonypandy** | | | |
| Mesurau inswleiddio | 4,500 - 5,500 o gartrefi | £20 - 270m | Cyfanswm Parth D £56 - 300m |
| **E – Prif is-orsaf Glan-bad** | | | |
| Paneli solar ffotofoltaig ar y to | 17MW | £18m | Cyfanswm Parth E £78 - 286m |
| Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear | 78MW | £34m | |
| Ynni gwynt ar y tir | 16MW (2050) | £18m (2050) | |
| **F – Prif is-orsaf Tonysguboriau** | | | |
| Paneli solar ffotofoltaig ar y to | 12MW | £13m | Cyfanswm Parth F £37 - 120m |
| **G – Prif is-orsaf Pencoed** | | | |
| Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear | 4MW | £4.7m | Cyfanswm Parth G £ 24 - 98m |
| Ynni gwynt ar y tir | 6MW (2050) | £7m (2050) | |

**Ffigur 0.3: Cynrychiolaeth ofodol o gyfleoedd Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys uchelgais a buddsoddiad 2030 (miliwn £). Mae ffiniau parthau'n cael eu diffinio yn ôl ardaloedd gwasanaeth prif is-orsafoedd.**

**Cydrannau ynni a awgrymir i'w treialu ym mhob parth**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (pwmp gwres) | Pympiau gwres | (solar ddaear) | Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear | (solar to) | Paneli solar ffotofoltaig ar y to |

# Crynodeb gweithredol

Er mwyn cyflawni'r LAEP, rydyn ni wedi datblygu cyfres o gamau gweithredu y bydd angen i ni eu cymryd

Sponsors:

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

Delivery partners:

ARUP

CARBON TRUST

## Trywydd gweithredu

Er bod union ffurf y system ynni ddatgarboneiddio yn 2050 yn ansicr, mae camau y gallwn eu cymryd nawr gyda sicrwydd cymharol a fydd yn ein helpu i gynnal y gallu i gyflawni ein huchelgais Sero Net 2050 a manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y newid hwn.

Mae ein trywydd gweithredu yn ystyried pob cynnig ynni ac yn amlinellu camau galluogi hanfodol y byddwn yn eu cymryd ar y cyd gyda'n rhanddeiliaid dros y degawd nesaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn y gallwn ei gyflawni yn y 5-7 mlynedd nesaf.

Mae trefn gweithgareddau'r trywydd yn ddibynnol iawn ar y cyd-destun gwleidyddol, rheoleiddiol a strategol y mae wedi'i greu ynddo. Felly, rydyn ni'n disgwyl iddo ddatblygu'n raddol dros amser a chael ei ddiweddaru'n rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod yn parhau'n berthnasol. Gellir gweld trywydd camau gweithredu Rhondda Cynon Taf ym Mhennod 4: Cynlluniau gweithredu.

## Y camau nesaf

**Bwrw ymlaen â chynigion ynni:** Ar gyfer pob cynnig sy'n cael blaenoriaeth, byddwn yn cynnal cyfres o weithgareddau datblygu i symud ymlaen at gyflawni (fel astudiaethau dichonoldeb, datblygiad technegol a masnachol manwl, achos busnes, masnacheiddio a chaffael).

**Llywodraethu:** Pan fo'n bosibl, byddwn yn integreiddio'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflawni'r LAEP â'r strwythurau llywodraethu presennol. Byddwn yn ymdrechu i benodi rheolwr rhaglen gyflawni, i arwain y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun hwn.

**Monitro:** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu fframwaith monitro sy'n adeiladu ar brosesau presennol ac yn ein helpu i ddeall y cynnydd y mae Rhondda Cynon Taf yn ei wneud tuag at gyflawni'r camau gweithredu a'r uchelgeisiau ymrwymedig a nodir yn y cynllun hwn.

**Ymgysylltu a chydweithio:**
Mae llawer o randdeiliaid sydd â diddordeb a dylanwad dros y system ynni leol wedi dod at ei gilydd i lunio'r LAEP hwn, ac mae'n bwysig bod y cydweithio hwn yn parhau wrth i ni gyflawni'r cynllun hwn. Mae datblygu'r LAEP hwn wedi dod â'r rheini sydd â diddordeb a dylanwad at ei gilydd.

**Rhondda Cynon Taf**

# Pennod 1: Cyflwyniad



# 1. Cyflwyniad

## Beth yw Cynllunio Ynni Ardal Leol (LAEP)?

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:*

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:*

ARUP

CARBON TRUST

### Trosolwg

#### Diffiniad o LAEP

Mae LAEP yn nodi'r newidiadau sydd eu hangen i drawsnewid system ynni ardal i allyriadau carbon sero net o fewn amserlen benodol. Drwy edrych ar amrywiaeth o dechnolegau a senarios drwy fodelu a dadansoddi systemau ynni cyfan, gellir nodi'r llwybr a ffefrir mwyaf cost-effeithiol at sero net[M01]. Mae'r broses yn dilyn canllawiau safonol a ddiffinnir gan Energy Systems Catapult (ESC).

Gan ei fod yn dibynnu ar ddata ac yn seiliedig ar dystiolaeth, mae LAEP yn defnyddio dull system ynni gyfan sy'n cael ei arwain gan lywodraeth leol a'i ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid diffiniedig. Mae'n ceisio nodi'r llwybr mwyaf effeithiol i'r ardal leol gyrraedd ei tharged Sero Net lleol, yn ogystal â chyfrannu at gyrraedd y targed cenedlaethol ar gyfer sero net[M01].

Mae LAEP yn arwain at gynllun gofodol dangosol wedi'i gostio sy'n nodi'r newid y mae angen ei wneud i'r system ynni leol a'r amgylchedd adeiledig, ac yn manylu ar y newidiadau sydd eu hangen, ble, pryd a chan bwy. Mae lefel y manylder mewn LAEP yn cyfateb i gynllun amlinellol neu uwchgynllun a'i fwriad yw nodi'r meysydd craidd y mae angen canolbwyntio arnynt dros y 25 mlynedd nesaf. Mae'n cynnig cynlluniau gweithredu sector-benodol ar gyfer y dyfodol sy'n nodi sut y bydd pob rhan o'r ardal yn cael ei dylunio a'i hadeiladu. Bydd angen gwaith dylunio manwl ychwanegol ar gyfer camau gweithredu, prosiectau a rhaglenni penodol a nodwyd er mwyn symud ymlaen i weithredu[a].

#### Gweledigaeth LAEP

Mae LAEP yn diffinio gweledigaeth hirdymor ar gyfer ardal ond dylid ei diweddaru oddeutu bob 3-5 mlynedd (neu pan fydd newidiadau technolegol, polisi neu leol sylweddol yn digwydd) i sicrhau bod y weledigaeth hirdymor yn parhau i fod yn berthnasol.

[a]Er enghraifft, gall LAEP nodi parth sydd fwyaf addas ar gyfer rhwydwaith gwresogi ardal drwy asesu'r mathau o adeiladau yn y parth, eu nodweddion a'u dwysedd. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r rhwydwaith gwresogi ardal, byddai angen asesiad dichonoldeb llawn gan gwmni gosod neu ddylunio sydd â chymwysterau priodol, ynghyd ag asesiad o hyfywedd masnachol a mecanweithiau cyflenwi.

# 1. Cyflwyniad

Beth yw Cynllunio Ynni Ardal Leol (LAEP)?

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:*

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:*

ARUP

CARBON TRUST

## Trosolwg

### Cwmpas LAEP

Mae Strategaeth Sero Net 2021 llywodraeth y DU yn amcangyfrif bod **82% o allyriadau'r DU "o fewn cwmpas dylanwad awdurdodau lleol."**[M02]

Mae cwmpas LAEP yn cynnwys y defnydd presennol a'r defnydd a ragwelir o ynni yn y dyfodol a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig, gan ganolbwyntio'n bennaf ar amgylchedd adeiledig yr ardal (pob categori o adeiladau domestig, annomestig, a diwydiannol), ynni a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth ffordd (ac eithrio'r ynni a ddefnyddir gan drenau, awyrennau a llongau), cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol a'r rhwydweithiau ynni sydd eu hangen i gefnogi'r defnydd hwn.

Dyma'r elfennau sydd wedi'u cynnwys mewn LAEP:

- Rhwydweithiau trydan, gwres a nwy
- Y potensial ar gyfer hydrogen yn y dyfodol
- Yr amgylchedd adeiledig (diwydiannol, preswyl a masnachol), ei ffabrig a'i systemau,
- Hyblygrwydd (o ran symud pan fydd galw ar y grid), a storio a chynhyrchu ynni,
- Darparu ynni i drafnidiaeth wedi'i datgarboneiddio (h.y., y trydan sydd ei angen ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan).

Mae'n nodi camau gweithredu a phrosiectau yn y tymor agos, gan roi sail i randdeiliaid fwrw ymlaen â gweithgarwch a blaenoriaethu buddsoddiadau a chamau gweithredu. Defnyddir data sy'n benodol i'r safle pan fydd ar gael, gyda'r ardaloedd sydd yn weddill yn cael eu cwmpasu gan set ddata sydd ar gael yn genedlaethol.

### Manteision LAEP

Mae LAEP yn darparu cynllun hirdymor i gyflawni sero net. Un o fanteision LAEP yw'r 'dull systemau cyfan', sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[M06] "ffordd o weithio" ar integreiddio. Mae hyn yn ystyried yr atebion mwyaf cost-effeithiol i system ynni'r dyfodol ar yr adeg iawn. Er enghraifft, defnyddio technolegau datgarboneiddio gwres gwahanol i osgoi costau uchel wrth uwchraddio'r rhwydwaith trydan. Drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid lleol, gan ymgorffori eu data, eu gwybodaeth a'u cynlluniau, mae LAEP yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gyffredin. Gall yr allbynnau wedyn gael eu defnyddio'n ddibynadwy gan randdeiliaid o gynllunwyr Rhondda Cynon Taf i weithredwyr rhwydwaith i grwpiau cymunedol, gan wybod eu bod yn gweithio tuag at nod cyffredin wedi'i adeiladu ar sylfeini cryf.

# 1. Cyflwyniad

## Trawsnewid i ynni adnewyddadwy ledled Cymru

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region


*Delivery partners:* ARUP; CARBON TRUST

### Trosolwg

Mae cynllun “Cymru Sero Net[M03] Llywodraeth Cymru yn sefydlu lefel uwch o uchelgais o ran datgarboneiddio, gyda tharged sy’n rhwymo’n gyfreithiol i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050. Dyma’r llywodraeth genedlaethol gyntaf i ariannu’r gwaith o gyflwyno LAEP i’w holl awdurdodau lleol. Mae’r rhaglen yn cael ei chydlynu drwy ddull rhanbarthol, lle mae pob LAEP yn cael eu datblygu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghanolbarth Cymru, De-orllewin Cymru, Gogledd Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Y rhesymeg dros ddefnyddio’r dull hwn oedd bod arbedion effeithlonrwydd o ran casglu a rheoli data, yn ogystal ag atgyfnerthu’r cysylltiadau rhwng y cynlluniau rhanbarthol a lleol i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd ar draws ardaloedd Awdurdodau Lleol a rhwng rhanbarthau.

I gyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynhyrchu “Cynllun Ynni Cenedlaethol” yn 2024, ar ôl cwblhau’r rhaglen LAEP, bydd Energy Systems Catapult[M04] yn cyfuno pob LAEP i greu darlun cenedlaethol. I gefnogi’r dasg hon, maen nhw’n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu a mewnforio allbynnau LAEP safonol i’w cyfuno ar blatfform MapDataCymru[M05]. Mae Catapult hefyd yn rhoi cymorth ymgynghorol technegol i Lywodraeth Cymru drwy gydol y rhaglen.

Bydd yr LAEP hefyd yn sail i’r ‘Cynllun Ynni Cenedlaethol’ y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i’w lunio yn 2024.




**Ffigur 1.1: Tirwedd LAEP ledled Cymru**

# 1. Cyflwyniad

## Ffiniau a chwmpas

**Rhannau o'r system ynni wedi'u dadansoddi mewn LAEP**

Sponsors: Rhondda Cynon Taf; Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region


Delivery partners: ARUP; Carbon Trust

Mae LAEP yn ystyried defnyddio, cyflenwi a chynhyrchu ynni o fewn ffin Rhondda Cynon Taf.

Mae tair rhan graidd i'r system ynni leol:

- **Seilwaith** – Yr asedau ffisegol sy'n gysylltiedig â'r system ynni fel is-orsafoedd trydan.
- **Cyflenwi** – Cynhyrchu (adnewyddadwy ac anadnewyddadwy), storio a dosbarthu ynni i ddefnyddwyr lleol i'w ddefnyddio mewn cartrefi, busnesau, diwydiant a thrafnidiaeth.
- **Galw** – Defnyddio ynni sy'n cael ei yrru gan weithgarwch dynol (e.e. petrol/disel sy'n cael ei ddefnyddio mewn cerbydau, nwy sy'n cael ei losgi ar gyfer gwres mewn cartrefi) sy'n ofynnol er mwyn i'r system ynni weithredu.

Mae'r system ynni gyfan ar draws pob sector yn cael ei hystyried yn y broses gynllunio i sicrhau bod y rhyngweithio a'r dibyniaethau rhwng cynhyrchu a defnyddio gwahanol ffynonellau ynni yn cael eu hystyried yn llawn. Mae hyn yn nodi lle gall gwahanol systemau weithio gyda'i gilydd i wella cadernid a hyblygrwydd cyffredinol y system ynni.




**Ffigur 1.2: Diagram o'r rhwydwaith dosbarthu a thrawsyrru nwy a thrydan a ffin y system ar gyfer LAEP**

# 1. Cyflwyniad

## Ffiniau a chwmpas

### Diffiniadau

**Cwmpas ar gyfer LAEPau Cymru**

Mae'r diagram ar y dde yn dangos y rhannau o'r system ynni leol sydd o fewn cwmpas LAEPau ledled Cymru. Diffinnir y cwmpas hwn gan Ganllawiau LAEP[M01] ESC.

**Ffin ddaearyddol**

Roeddem wedi defnyddio'r ffin ddaearyddol ar gyfer Rhondda Cynon Taf i bennu'r ffin ar gyfer yr LAEP, a oedd yn golygu bod unrhyw asedau cynhyrchu ynni, defnydd o ynni a seilwaith yn y ffin honno yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn yr LAEP.

**Elfennau sydd wedi'u heithrio o'r LAEP**

Nid yw LAEP yn ystyried agweddau ar y system ynni y disgwylir iddynt gael eu goruchwylio gan y llywodraeth ganolog, nac unrhyw ffynonellau nad ydynt yn ynni o allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) sy'n digwydd o fewn ffin lywodraethu'r Awdurdod Lleol (er enghraifft, mae allyriadau o brosesau diwydiannol, defnydd tir amaethyddol a da byw wedi'u heithrio. Mae ynni a ddefnyddir ar gyfer morgludo, hedfan a rheilffyrdd wedi'i eithrio ar y sail nad ydynt yn ddefnydd lleol o ynni. Mae generaduron trydan mawr sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru (fel ffermydd gwynt mawr a hydrogen SMR) yn cael eu hystyried yn asedau cenedlaethol ac felly wedi'u heithrio o'r gwaith modelu. Fodd bynnag, mae'r rhain, er enghraifft fferm wynt Pen y Cymoedd, yn debygol o chwarae rhan bwysig yn nhaith datgarboneiddio Rhondda Cynon Taf.

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru / Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd / Cardiff Capital Region

*Delivery partners:* ARUP; CARBON TRUST

O fewn cwmpas LAEP (coch)
Y tu allan i gwmpas LAEP (llwyd)

| Cyflenwi ynni → | Dosbarthu ynni → | Defnyddio ynni |
|---|---|---|
| Asedau sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu ac sydd â chapasiti o <100MW. | **Dosbarthu a storio trydan** | **Trafnidiaeth (tanwydd/trydan)** |
| Paneli solar ffotofoltaig ar y to (o fewn) | Storio trydan (o fewn) | Cerbydau ffordd (o fewn) |
| Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear (o fewn) | Gwasanaethau hyblygrwydd eraill (o fewn) | Llongau (y tu allan) |
| Ynni gwynt ar y tir (o fewn) | Is-orsafoedd trydan (o fewn) | Ffyrdd cyhoeddus (o fewn) |
| Biomas (o fewn) | Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (EVCI) (o fewn) | Awyrennau (y tu allan) |
| Nwy tirlenwi (o fewn) | | Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (y tu allan) |
| Ynni o Wastraff (o fewn) | | Rheilffyrdd (y tu allan) |
| Olew (o fewn) | | Peiriannau oddi ar y ffordd (y tu allan) |
| Gwres gwastraff (o fewn) | **Dosbarthu nwy** | **Adeiladau (trydan, gwres)** |
| LPG (o fewn) | Storio thermol (o fewn) | Adeiladau masnachol/ diwydiannol (o fewn) |
| Rhwydweithiau gwresogi (o fewn) | Rhwydwaith dosbarthu nwy (o fewn) | Cartrefi (o fewn) |
| Glo (o fewn) | **Dosbarthu a storio hydrogen** | Adeiladau'r sector cyhoeddus (o fewn) |
| Ynni dŵr (o fewn) | Storio hydrogen (o fewn) | Adeiladau amaethyddol (o fewn) |
| Asedau cynhyrchu cenedlaethol (sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru, a/neu sydd â chapasiti o >100MW). Caniatâd cynllunio ar gyfer ased a roddwyd gan PEDW (>10MW). (y tu allan) | Rhwydwaith dosbarthu hydrogen (addasu rhwydwaith nwy) (o fewn) | **Prosesau diwydiannol (trydan, gwres)** |
| | | Os ydynt wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu (o fewn) |

**Ffigur 1.3: Diagram o gwmpas y system leol ar gyfer LAEP**

# 1. Cyflwyniad

## Ein gweledigaeth ar gyfer system ynni leol Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol

### Gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion system ynni'r dyfodol

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:*

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:*

ARUP

CARBON TRUST

Rydyn ni wedi cynhyrchu'r datganiad gweledigaeth canlynol sy'n sail i'n huchelgais ar gyfer system ynni sero net y dyfodol yn Rhondda Cynon Taf erbyn 2050:

Law yn llaw â'r datganiad hwn rydyn ni wedi datblygu amcanion system ynni penodol ar gyfer ein LAEP. Mae'r camau gweithredu arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn Adran 4 y cynllun hwn wedi'u dylunio i roi newidiadau ar waith a fydd yn helpu Rhondda Cynon Taf i gyflawni'r amcanion hyn:

**Gweledigaeth Rhondda Cynon Taf**

**Dyfodol ynni cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon mewn ffordd gost-effeithiol ac adeiladu seilwaith ynni cadarn. Yn ganolog i'r weledigaeth hon yw ymgysylltiad a pherchnogaeth gymunedol, gan sicrhau atebion ynni hygyrch a fforddiadwy i bawb. Ein nod yw arwain mewn arloesi ynni, a chyd-fynd â thargedau sero net Llywodraeth Cymru, gan barchu ein treftadaeth naturiol a gwella llesiant cymunedol. Mae'r weledigaeth hon yn cynrychioli ymrwymiad i ddyfodol cynaliadwy, cynhwysol a llewyrchus i Rondda Cynon Taf.**

**Amcanion ynni**

1. **Sicrhau'r gostyngiadau mwyaf posibl mewn allyriadau carbon gan leihau costau ariannol**
2. **Darparu system ynni gadarn, sy'n gallu cynyddu'r ddarpariaeth o ynni glân yn lleol er mwyn bodloni cyfran fwy o'r galw am ynni yn y dyfodol**
3. **Ymgysylltu â'r gymuned, darparu arweinyddiaeth, a pherchnogaeth o'n system ynni**
4. **Darparu atebion fforddiadwy i bawb wrth newid i darged Llywodraeth Cymru o sicrhau sector cyhoeddus sero net**

# 1. Cyflwyniad

## Cynnwys LAEP

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:* ARUP; CARBON TRUST


RHONDDA CYNON TAF

Mae'r LAEP hwn yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer system ynni leol sero net erbyn 2050 ar gyfer ardal gyfan Rhondda Cynon Taf, gyda thrywydd i gyrraedd yno, gan gynnwys cyfres o gamau gweithredu a argymhellir ar gyfer Rhondda Cynon Taf, tra'n cydnabod rôl gweithredwyr allweddol eraill yn y llywodraeth, y sector ynni ac ar draws y gymuned.


### Strwythur y cynllun

Mae'r cynllun hwn wedi'i rannu'n bedwar prif faes pwnc:

1. Y system ynni bresennol - disgrifiad o system ynni bresennol Rhondda Cynon Taf a pholisïau ac amcanion perthnasol.
2. System ynni'r dyfodol - cyflwyno senarios yn y dyfodol ar gyfer system ynni leol sero net erbyn 2050, gan gynnwys risgiau a mesurau “fydd yn peri ychydig o ofid”, sy'n debygol iawn o fod yn rhan o system ynni'r dyfodol ni waeth beth fo'r ansicrwydd ynghylch rhai agweddau ar y dyfodol.
3. Cynlluniau gweithredu- trywydd a chynllun gweithredu i ni eu defnyddio i sbarduno'r newid i'r system ynni leol yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys beth sydd angen digwydd a beth fyddwn ni'n ei wneud.
4. Y camau nesaf – amlinelliad o'r camau nesaf uniongyrchol a'r hyn sydd ei angen i greu amgylchedd galluogi ar gyfer cyflawni'r cynllun hwn, a system ynni leol sero net.




**Ffigur 1.4: Ffin ddaearyddol y LAEP**




**Ffigur 1.5: Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Mae Ffigur 1.4 yn dangos ffiniau Rhondda Cynon Taf (piws) a phob un o ardaloedd gwasanaeth y prif is-orsafoedd (coch). Lle'r oedd ardaloedd gwasanaeth prif is-orsafoedd yn croesi un neu fwy o ffiniau Awdurdodau Lleol, fe'u rhannwyd yn barthau modelu llai ar y ffin honno. Yn amlach na pheidio, rydyn ni'n cyflwyno'r dadansoddiad, y canlyniadau a'r mapiau yma o ran y parthau modelu llai hyn, a allai hefyd gael eu galw'n “barthau'r is-orsaf” neu “barthau” yn unig.

**Rhondda Cynon Taf**

# Pennod 2: Y system ynni bresennol



# 2. Y system ynni bresennol

## Dadansoddiad - cyd-destun lleol

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region

*Delivery partners:* ARUP; Carbon Trust

Mae Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu ardal yng Nghymoedd De Cymru sy'n ymestyn o Fannau Brycheiniog yn y gogledd i gyrion Caerdydd yn y de. Mae'n cynnwys pum cwm; Rhondda Fawr, Rhondda Fach, Cynon, Taf a Threlái.

Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol, lled-drefol a gwledig sydd wedi'u lleoli yn y mynyddoedd ac ar dir amaethyddol isel. Mae cyfran uchel o'r boblogaeth oedran gweithio yn y categori tlodi tanwydd, ac mae cryn angen am dai cymdeithasol, tai fforddiadwy a thai pobl hŷn.

Cyfanswm ardal Rhondda Cynon Taf yw 424km$^2$, ac mae 52km$^2$ ohono o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog [ML01, ML02]. Mae potensial sylweddol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy; mae sawl fferm wynt yno ar hyn o bryd (gan gynnwys Pen y Cymoedd sy'n 228MW, felly ystyrir ei fod yn ased cenedlaethol yn hytrach na'i fod yn rhan o'r system leol). Mae rhywfaint o ucheldir Rhondda Cynon Taf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer coedwigaeth ac adfer mawn, a allai leihau'r posibilrwydd o ddefnyddio ynni adnewyddadwy.

Mae gan Rondda Cynon Taf dreftadaeth lofaol a gorffennol diwydiannol ond mae'r ardaloedd diwydiannol wedi dirywio dros y blynyddoedd.

Mae gan y brifysgol bresenoldeb mawr yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys Prifysgol De Cymru a Choleg Morgannwg. Mae gwaith ymchwil a datblygu yn cynnwys technolegau batri a hydrogen.

Prif ffyrdd Rhondda Cynon Taf yw'r A465, yr A470 a'r M4. Mae'r cymoedd yn Rhondda Cynon Taf yn rhedeg o'r gogledd i'r de yn gyffredinol felly mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da â Chaerdydd o nifer o'r prif ardaloedd; mae trafnidiaeth gyhoeddus yn llai hwylus o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng y cymoedd ac mae'n arbennig o gyfyngedig o'r ardaloedd ymylol.

# 2. Y system ynni bresennol

## Y cyd-destun polisi

### Crynodeb o bolisïau

#### Polisi Llywodraeth Cymru

Mae'r polisïau cenedlaethol allweddol sy'n ymwneud â'r LAEP hwn yn cynnwys:

- Mae llywodraethau'r DU[M74] a Chymru[M49] wedi gosod targedau allyriadau sero net ar gyfer 2050, ac mae sector cyhoeddus Cymru wedi gosod targed sero net erbyn 2030[M54].
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod ei chynllun cyflawni carbon isel ar gyfer 2021-25 ac mae'n targedu gostyngiad o 44% yn erbyn llinell sylfaen 1990[M03]. Mae'n ystyried trawsnewid cyfiawn yn rhywbeth allweddol ac yn ystyried datgarboneiddio yn ffordd o sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ac economaidd.
- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**[M06] yn darparu'r fframwaith sy'n rhwymo'n gyfreithiol i weithgareddau'r sector cyhoeddus fod yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy yng Nghymru, gan amlinellu saith nod ar gyfer ffyniant a chynaliadwyedd.
- Mae **Cymru Sero Net**[M03], a gyhoeddwyd yn 2021, yn nodi 123 o bolisïau a chynigion i fodloni'r ail gyllideb garbon (2021-25). Nod Polisi 20 Cymru Sero Net yw lleihau risg ac integreiddio buddsoddiad yng Nghymru drwy gynllunio ynni

#### Polisi rhanbarthol

Mae'r polisïau rhanbarthol allweddol sy'n ymwneud â'r LAEP hwn yn cynnwys:

- Mae **Strategaeth Ynni Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (2021)** [MC31] yn sefydlu llwybr strategol sy'n nodi ymyriadau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer datgarboneiddio ei system ynni. Mae'r strategaeth ranbarthol hon yn cynnwys asesiad ynni sylfaenol, canlyniadau prosiectau modelu systemau ynni'r dyfodol a gwerthusiad economaidd. Mae hefyd yn amlinellu camau dilynol ar gyfer trawsnewid system ynni Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- Datblygwyd **Cynllun Trafnidiaeth Cymoedd y De-ddwyrain (2015)**[ML27] ar y cyd gan awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Mae hyn yn cyfleu gweledigaeth ac amcan ar gyfer system drafnidiaeth yr is-ranbarth. Mae'n amlinellu ymyriadau strategol tymor byr a hirdymor sydd wedi'u dylunio i wireddu'r amcanion hyn. Bydd yn cael ei ddisodli gan Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru yn 2025.
- Mae **Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol**[MC35] Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn nodi nifer o ysgogiadau gan gynnwys: **Technolegau Gwyrdd**: Tyfu'r economi werdd drwy fentrau arloesi sy'n canolbwyntio ar dechnolegau gwyrdd a sgiliau'r dyfodol. **Trawsnewid i Sero Net:** Dechrau trawsnewid y rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol i sero net drwy ddefnyddio seilwaith a thechnolegau gwyrdd. **Cynhyrchu Ynni Sero Net**: Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau cynhyrchu ynni sero net yn y rhanbarth er mwyn rhoi gwell ddiogelwch o ran ynni a lleihau dibyniaeth ar ynni sy'n cael ei fewnforio.

Sponsors:
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Prifddinas Ranbarth Caerdydd
Cardiff Capital Region
RHONDDA CYNON TAF
Delivery partners:
ARUP
CARBON TRUST

# 2. Y system ynni bresennol

Y cyd-destun polisi

Sponsors: Delivery partners:

## Polisi lleol

Mae'r polisïau lleol allweddol sy'n ymwneud â'r LAEP hwn yn cynnwys:

- Mae **Hinsawdd Ystyriol RCT (2022-2025)**[ML18] yn nodi targedau ac ymrwymiadau'r Cyngor o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Ei nod yw cael Cyngor carbon niwtral erbyn 2030, a'r Fwrdeistref Sirol mor agos â phosibl at garbon niwtral erbyn 2030. Mae'r Cynllun Corfforaethol (2020-2024) yn gysylltiedig ag addewidion hinsawdd.
- Mae'r **Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (2018-2023)** [ML19] yn nodi sut i leihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor a chynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir.
- Mae'r **Strategaeth Datgarboneiddio (2023-2025)** [ML20] yn cynnwys cynllun gweithredu gyda chamau clir ar gyfer y blynyddoedd nesaf ac uchelgeisiau tymor hwy.
- Cafodd y **Cynllun Datblygu Lleol** presennol (LDP [ML21]) ei fabwysiadu yn 2011, ac er mai'r dyddiad gorffen yw 2021 bydd yn parhau mewn grym nes bydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig wedi'i fabwysiadu. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig dyddiedig 2022 - 2037 wedi'i baratoi hyd at Gam y Strategaeth a Ffefrir.

Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei **Gynllun Corfforaethol** newydd[ML22] a fydd ar waith o fis Ebrill 2024; bydd hwn yn gwreiddio uchelgeisiau hinsawdd y Cyngor ymhellach yn ei waith. Nod y Cynllun Corfforaethol newydd yw cyflawni ein Gweledigaeth Strategol ar gyfer RCT lle gall pobl, cymunedau a busnesau dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle gallant gyflawni eu potensial llawn ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol, drwy wella Lles Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol Rhondda Cynon Taf drwy ei bedwar Amcan Llesiant.

Mae'r strategaethau perthnasol eraill yn cynnwys: **Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan** (2021-2030)[ML23] a chynllun gweithredu cysylltiedig, **Cynllun Trawsnewid Fflyd** (2022)[ML24], **Strategaeth Gaffael** (2022)[ML25] a **Chynllun Llesiant** (2018-2023)[ML26].

# 2. Y system ynni bresennol

## Ein dull cydweithredol o ddatblygu a darparu'r LAEP

### Dull ymgysylltu â rhanddeiliaid

Sponsors:

Delivery partners:

Mae cyflawni ein LAEP yn galw am ymdrech ar y cyd gan bob math o sefydliadau o fewn a thu hwnt i ffin yr awdurdod lleol. Mae'r system ynni leol yn ymestyn y tu hwnt i ddylanwad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a dyna pam mai ymgysylltu â rhanddeiliaid yw'r sylfaen ar gyfer datblygu ein LAEP.

Roedden ni wedi rhoi blaenoriaeth i randdeiliaid ar sail lefel eu dylanwad lleol a / neu eu gwybodaeth am elfennau penodol o'r system ynni leol a'u rôl yn y gwaith o ddatblygu'r LAEP. Daeth pwysigrwydd cydnabod cyfraniad rhanddeiliaid rhanbarthol i'r amlwg yn gynnar yn yr LAEP. Mae ganddyn nhw rôl unigryw i'w chwarae, gan sicrhau cydlyniant gweithredu ar gyfer elfen(nau) penodol o'r system ynni ar draws LAEPau cyfagos yn yr un rhanbarth a chynnig arbedion effeithlonrwydd rhanbarthol pan mae amcanion lleol yn cydweddu.

Fe wnaethon ni ymgysylltu â rhanddeiliaid ar wahanol gamau o'r broses ddatblygu i wneud yn siŵr eu bod yn gallu helpu i siapio'r cynllun a cherrig milltir datblygu allweddol. Fe wnaethon ni gynnal grwpiau llywio rhanbarthol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, lle roedd arweinwyr rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn bresennol, yn ogystal â chyfarfodydd bob pythefnos gydag arweinwyr yr awdurdodau lleol. Cynhaliwyd tri gweithdy yn rhanbarthol ac roedden nhw'n cynnwys prif randdeiliaid o bob awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Defnyddiwyd y gweithdai hyn ar gamau pan oedd yn bwysig cytuno ar ffordd ymlaen a oedd yn briodol i'r rhanbarth, yn ogystal â phob awdurdod lleol.

Fel rhan o'r rhaglen gyffredinol, daeth fforwm cenedlaethol â'r holl gyflenwyr, arweinwyr awdurdodau lleol, arweinwyr rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a'r Cynghorydd Technegol at ei gilydd i rannu'r hyn a ddysgwyd a chynnal dull gweithredu cyson ledled Cymru. Roedd y cyflenwyr a'r arweinwyr rhanbarthol hefyd wedi cael sesiynau dal i fyny rheolaidd i rannu rhagdybiaethau a heriau.

*Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ceir **Adroddiad Technegol** sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am fethodoleg dadansoddi ac ymgysylltiad rhanddeiliaid drwy gydol datblygiad y cynllun.*

| Sector | Enghreifftiau o randdeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw |
|---|---|
| Adeiladau | cymdeithasau tai |
| Trafnidiaeth | Darparwyr trafnidiaeth |
| Cynhyrchu ynni adnewyddadwy | Datblygwyr prosiectau ynni Grwpiau ynni cymunedol |
| Diwydiant a'r sector preifat | Busnesau lleol, cyfranogion mwy yn y sector diwydiannol |
| Ymgysylltu â'r gymuned | Elusennau, mentrau cymdeithasol, |
| Rhwydweithiau | Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu, rhwydweithiau dosbarthu nwy |
| Sector cyhoeddus | Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, sefydliadau addysg |

Tabl 2.1: Crynodeb o'r rhanddeiliaid

Rhondda Cynon Taf

# Pennod 2: Y system ynni bresennol

Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf



# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf

### Sut i ddarllen diagram Sankey

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg manwl o linell sylfaen y system ynni leol, ac yn disgrifio'r fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir i ddeall y seilwaith ynni presennol, pa fathau o ynni a ddefnyddir, pa dechnolegau a ddefnyddir i'w drosi o un ffurf i'r llall (e.e. gwres) a faint sy'n cael ei ddefnyddio.


Mae'r canlyniadau a gyflwynwyd yn adlewyrchu'r llinell sylfaen ynni yn Rhondda Cynon Taf yn 2023, ar wahân i ddata trafnidiaeth (2015) a data'r diwydiant (2019). Setiau data trafnidiaeth a diwydiant yw'r lleiaf tebygol o fod wedi newid o ran trydaneiddio dros y blynyddoedd rhwng 2019 a 2023, a thrafnidiaeth yw'r set ddata fwyaf tebygol o fod wedi newid yn gyffredinol oherwydd COVID-19.

Mae diagramau Sankey yn ffordd o **ddelweddu trosglwyddo ynni** o <u>ffynonellau</u> ynni i <u>ofynion</u> ynni drwy fectorau ynni neu dechnolegau trosi.

Cânt eu darllen **o'r chwith i'r dde** ac maent yn dangos **ciplun o senario mewn amser** e.e., 2050.

Mae trosglwyddiadau ynni yn **cael eu tynnu i raddfa** ac felly maen nhw'n ddefnyddiol i nodi <u>maint</u> pob trosglwyddiad a chymharu senarios gwahanol.

Mae'r cartref cyfartalog yng Nghymru yn defnyddio 3.325MWh y flwyddyn o drydan, sef 0.003GWh i'w gymharu â'r raddfa ar y Sankey. O ran nwy, mae cartref nodweddiadol yn defnyddio 12MWh y flwyddyn, sef 0.012GWh i'w gymharu â graddfa ar y Sankey.[M40]




**1. O ble daw'r ynni**
Mae'r ochr hon yn cynrychioli'r gwahanol **ffynonellau ynni**, gan gynnwys technolegau cynhyrchu a mewnforion o'r grid cenedlaethol

**2. Sut mae'r ynni'n cael ei drosi**

**3. Ble mae'r ynni'n cael ei ddefnyddio**
Mae'r ochr hon yn cynrychioli'r **gofynion terfynol** ar gyfer pob fector ynni: galw am wres, galw am drydan, galw am drafnidiaeth.

**Ffigur 2.1: Sut i ddarllen diagram Sankey (unedau mewn GWh y flwyddyn)**


# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf

**Y galw am ynni**

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:* ARUP; CARBON TRUST




**Ffigur 2.2: Diagram Sankey yn dangos mewnbwn, trosiad ac allbwn ynni yn Rhondda Cynon Taf mewn GWh y flwyddyn. Nid yw'r llinell sylfaen hon yn cynnwys asedau cenedlaethol.**

Trydan sy'n gyfrifol am 23% o'r galw am ynni:

- Mae >50% o'r galw am drydan yn yr ardal yn cael ei ddiwallu gan ffynonellau adnewyddadwy.
- Mae 40% o'r galw am drydan yn cael ei ddiwallu gan ffermydd gwynt lleol.
- 4% o drydan sy'n cael ei ddefnyddio i wresogi.
- Prynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 100% o'i drydan gyda thystysgrif REGO.

Gwres sy'n gyfrifol am 44% o'r galw am ynni:

- Roedd 90% o'r galw am wres yn cael ei ddiwallu gan foeleri nwy.
- Roedd gan 34% o gartrefi sgôr EPC o A-C.
- Roedd 96% o gartrefi wedi'u cysylltu â'r grid nwy.
- Roedd 47% o gartrefi yn dai teras (2021).

Trafnidiaeth sy'n gyfrifol am 33% o'r galw am ynni:

- Roedd bron i 100% o gerbydau yn rhai peiriant tanio mewnol.


# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf


### Galw am ynni fesul sector

Mae Ffigur 2.3 yn dangos y trydan llinell sylfaen yn Rhondda Cynon Taf sy'n seiliedig ar ddata defnydd trydan ar lefel mesurydd. Yn gyffredinol, mae'r galw'n seiliedig ar ardaloedd sydd â dwysedd uwch o ran y boblogaeth a busnesau.

Mae Ffigur 2.4 yn dangos y defnydd o ynni ar gyfer trafnidiaeth yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r data hwn yn cynrychioli pob taith sydd naill ai'n dechrau neu'n dod i ben ym mhob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer pob math o gerbyd (ac eithrio cerbydau oddi ar y ffordd a thrafnidiaeth gyhoeddus). Felly, nid yw traffig sy'n pasio drwy Rondda Cynon Taf ar brif ffyrdd fel yr M4, yr A470 a'r A465 yn cael ei gynrychioli gan y data hwn, gyda'r galw mwyaf gan drafnidiaeth mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth a chyflogaeth uwch.




Ffigur 2.3: Defnydd o drydan yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganolig (MSOA) ar draws Rhondda Cynon Taf yn 2023. Mae'r data'n seiliedig ar ddata defnydd trydan ar lefel mesurydd




Ffigur 2.4: Y defnydd o ynni ar gyfer trafnidiaeth (cyfanswm cyfun ar gyfer ceir, cerbydau nwyddau ysgafn (LGV) a cherbydau nwyddau trwm (HGV) yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), yn 2015 fel blwyddyn sylfaen

# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf


### Galw am ynni fesul sector


Mae Ffigur 2.5 yn cyflwyno defnydd Rhondda Cynon Taf o wres ar lefel parth modelu, sy'n cael ei ddiffinio yn ôl ardaloedd gwasanaeth y brif is-orsaf. Yn 2019, roedd y mwyafrif helaeth o adeiladau preswyl (97%) wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy[ML04], ac mae hynny'n egluro'r defnydd uchel a ddangosir drwy'r rhan fwyaf o'r ardal.

Y parth is-orsaf â'r defnydd uchaf o nwy oedd Tonypandy, sydd â'r nifer fwyaf o gartrefi o blith pob un o barthau'r is-orsaf.

Mae natur safleoedd diwydiannol yn Rhondda Cynon Taf yn amrywio, gyda chymysgedd o safleoedd tameidiog a chlystyrau diwydiannol, er bod nifer yr ardaloedd diwydiannol yn Rhondda Cynon Taf wedi gostwng dros y blynyddoedd.

Y llwythau diwydiannol mawr fel y'u diffinnir gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) yn Rhondda Cynon Taf yw Gorsaf Bŵer Larigan, Forrest Wood Coating Plant sy'n eiddo i Cemex UK, Maxibrite a Chwarel Hanson ar safle Penderyn.





**Ffigur 2.5: Llwythi diwydiannol mawr (2019) a'r galw am wres (2023) yn ôl parth is-orsaf ar draws Rhondda Cynon Taf**

# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf

### Cynhyrchu ynni

Sponsors: Rhondda Cynon Taf; Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region
Delivery partners: ARUP; Carbon Trust




**Ynni adnewyddadwy**

**Capasiti gosodedig cynhyrchu trydan adnewyddadwy**

180MW cyfanswm capasiti gosodedig ynni adnewyddadwy

120MW tyrbinau gwynt

28MW paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear

12MW paneli solar ffotofoltaig ar y to

20MW nwy tirlenwi


**Tanwyddau ffosil**

**Capasiti gosodedig cynhyrchu trydan tanwydd ffosil:**

60MW cyfanswm capasiti gosodedig tanwydd ffosil

40MW nwy

20MW olew




**Ffigur 2.6: Generaduron ynni lleol a'u capasiti unigol (MW) a phaneli solar ffotofoltaig ar y to domestig ac annomestig (MW) yn ôl cod allanol (2023)**

# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf

### Galw am ynni fesul sector

Sponsors: Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region

Delivery partners: ARUP; Carbon Trust


Mae hyblygrwydd sy'n ymwneud â chynhyrchu a galw yn rhwydwaith dosbarthu trydan awdurdod lleol yn cyfeirio at warged neu ddiffyg capasiti rhwng y trydan a gynhyrchir a'r trydan a ddefnyddir, sy'n hanfodol ar gyfer cynnal cyflenwad pŵer sefydlog a dibynadwy i ddiwallu anghenion y gymuned.

Ar hyn o bryd, mae Rhondda Cynon Taf yn wynebu heriau oherwydd cyfyngiadau presennol y grid, sy'n aml yn arwain at oedi mewn cysylltiadau newydd a chostau cysylltiedig sylweddol. Mae'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar y gallu i ddatblygu seilwaith a ffynonellau ynni newydd, sy'n tynnu sylw at yr angen i uwchraddio a gwella'r grid.

Mae hyblygrwydd y galw yn Rhondda Cynon Taf yn amrywio ar draws y rhanbarth, o 0 i 8MW fesul is-orsaf (ystod canolrif o 0 i 2MW) sy'n cynrychioli cyfleoedd tymor byr amrywiol ar gyfer mwy o alw am ynni.


Mae'r hyblygrwydd cynhyrchu yn Rhondda Cynon Taf yn amrywio ar draws y rhanbarth, o 0 i 8MW fesul is-orsaf (canolrif o 0 i 2MW) sy'n cynrychioli cyfleoedd amrywiol ar gyfer cynhyrchu trydan; mae'r ardaloedd hyn yn debyg i'r ardaloedd hyblygrwydd y galw ond gydag ychydig o hyblygrwydd cynhyrchu yng ngogledd y sir, sy'n fwyaf tebygol o fod yn sgil y cynhyrchu ynni gwynt yn barod yn yr ardal honno.

**Hyblygrwydd cynhyrchu**




**Ffigur 2.7: Hyblygrwydd sy'n ymwneud â chynhyrchu trydan (2023). Hyblygrwydd sy'n ymwneud â chynhyrchu trydan yw'r gwahaniaeth rhwng capasiti'r rhwydwaith i dderbyn ynni wedi'i allforio o eneraduron, a'r cyflenwad go iawn**

**Hyblygrwydd y galw**




**Ffigur 2.8: Hyblygrwydd sy'n ymwneud â'r galw am drydan (2023). Hyblygrwydd sy'n ymwneud â'r galw am drydan yw'r gwahaniaeth rhwng capasiti'r rhwydwaith i ddiwallu'r galw, a'r galw go iawn**

# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf

**Ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd lleol sy'n dylanwadu ar ynni**

RHONDDA CYNON TAF
*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region
*Delivery partners:* ARUP; CARBON TRUST

### Tir

424km$^2$ cyfanswm arwynebedd y tir - tua thraean dan goed ac oddeutu traean yn drefol[ML03]

Hyd yn oed o fewn y prif ardaloedd trefol, mae 18.5% ar gyfartaledd wedi'i orchuddio â choed[ML03]

>50% o gyfanswm y galw am drydan o ffynonellau adnewyddadwy

### Demograffeg

Poblogaeth: 241,000 (poblogaeth Cymru ydy 3.1 miliwn)[ML05]

570 o bobl fesul km$^2$ (cyfartaledd Cymru ydy 150 o bobl fesul km$^2$)[ML05]

Twf yn y boblogaeth yn ystod y 10 mlynedd diwethaf: 3% [ML05]

71% o gartrefi â sgôr EPC D ac is (cyfartaledd Cymru yw 60%)[ML06]

47% o dai teras (2021)

### Elfennau economaidd-gymdeithasol

12% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd (cyfartaledd Cymru yw 14%)[ML07]

16% o dai cymdeithasol (cyfartaledd Cymru yw 20%)

92% o gyfeiriadau preswyl

41,300 o bobl yn cymudo allan o'r ardal, ac 13,500 o bobl yn cymudo i mewn[ML08]


### Allyriadau

Cyfartaledd Cymru: 7t$CO_2$e y pen[M68]

Y sectorau sy'n gyfrifol am yr allyriadau carbon mwyaf yn 2023:

- 36% cerbydau ffordd
- 57% adeiladau
- 7% cynhyrchu trydan yn lleol a diwydiant

Mae allyriadau 2023 yn llai na dwy ran o dair o lefelau 2005[ML09]




**Ffigur 2.9: Allyriadau yn ôl sector. Mae llwythi diwydiannol yn 'darddleoedd mawr' yn ôl diffiniad DESNZ**

# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf

**Y cynnydd hyd yma**

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:*

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:*


ARUP

CARBON TRUST

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi gweithio i leihau ei allyriadau carbon nwyon tŷ gwydr sefydliadol, ac i ddarparu'r modd i'r gymuned ehangach wneud yr un fath, wrth i ni symud i system ynni sero net 2050.

Mae ymrwymiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn nodi y bydd wedi gwneud y canlynol erbyn 2030:

- Bydd Rhondda Cynon Taf yn Gyngor carbon niwtral
- Bydd y Fwrdeistref Sirol mor agos at garbon niwtral â phosibl
- Bydd y Fwrdeistref Sirol wedi cyfrannu at gwrdd ag uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau sector cyhoeddus Sero Net




**Ffigur 2.10: Crynodeb o gamau'r Cyngor hyd yma sydd wedi cyfrannu at ddatgarboneiddio'r system ynni leol**

# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Sponsors: Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region

Delivery partners: ARUP; Carbon Trust

### Cynhyrchu adnewyddadwy

Mae llawer o drydan ynni adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu yn Rhondda Cynon Taf eisoes, gyda photensial sylweddol ar gyfer mwy. Cynhaliwyd asesiad o ynni adnewyddadwy yn 2021 a oedd yn tynnu sylw at nifer fawr o ddarnau o dir a oedd, mewn theori, â'r potensial ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai nad yw peth o'r tir hwn yn ddelfrydol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, a bod angen cydbwyso defnydd tir ar gyfer ynni adnewyddadwy â mathau eraill o ganlyniadau buddiol fel bioamrywiaeth, lliniaru llifogydd, pridd a llystyfiant, carbon ac amaethyddiaeth.

Bydd asesiad 2021 yn cael ei fireinio ymhellach, gan ystyried ffactorau ychwanegol fel adfer mawn, cynefinoedd â blaenoriaeth, dynodiadau SINC ac addasrwydd y tir, er mwyn pennu'n fwy cywir faint yw'r capasiti posibl tebygol ar gyfer cynhyrchu. Bydd yr asesiad hwn hefyd yn ystyried effeithiau amrywiol y gwahanol dechnolegau ynni adnewyddadwy.

Nid yw asedau dros 100 MW o fewn cwmpas yr LAEP hwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y prosiectau ynni adnewyddadwy a nodir yma oherwydd ystyrir eu bod yn asedau cenedlaethol. Er enghraifft, 228 MW yw capasiti gosodedig fferm wynt Pen y Cymoedd felly nid yw wedi'i chynnwys yn y modelu na'r drafodaeth.

Ynni gwynt ar y tir yw'r ffynhonnell ynni adnewyddadwy amlwg sy'n cael ei harneisio yn Rhondda Cynon Taf, gyda chapasiti gosodedig o oddeutu 120MW yn 2023. Mae ynni solar hefyd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gymysgedd ynni lleol, gyda chapasiti gosodedig o 40MW yn Rhondda Cynon Taf yn 2019, o doeon a ffermydd solar pwrpasol ar y ddaear.

Yn ogystal â gwynt a solar, mae Rhondda Cynon Taf yn defnyddio amryw o ffynonellau cynhyrchu trydan adnewyddadwy eraill, gan gynnwys trydan dŵr, nwy tirlenwi a chyfleusterau treulio anaerobig. Mae'r ffynonellau hyn yn amrywio'r gymysgedd ynni ymhellach, gan sicrhau dibynadwyedd a chynaliadwyedd.

Mae'r cynlluniau yn yr arfaeth yn cynnwys Fferm Wynt Twyn Hywel (94MW) sydd ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chaerffili. Mae'r cynlluniau sydd wedi cael caniatâd ond nad ydynt eto'n weithredol yn cynnwys fferm wynt 9MW yn Abergorki (ger Pwll Glo Maerdy), a gwaith ail-bweru 8.6MW fferm wynt Taf Elái. Mae'r prosiectau ynni adnewyddadwy sydd ar y gweill yn cynnwys fferm wynt 7.2MW yn Llwyncelyn, a chynllun paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear 9.9MW yn Fferm Rhiwfelin Fawr. Mae potensial sylweddol i gynhyrchu ar asedau sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac mae'r Cyngor yn archwilio'r rhain.

# 2. Y system ynni bresennol

## Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf

### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Sponsors:

Delivery partners:

Lleihau'r galw am ynni

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn edrych ar ffyrdd o leihau ei ddefnydd o ynni ac mae wedi buddsoddi dros £12 miliwn yn ei raglen lleihau carbon ers 2009, gan gynnwys trosi goleuadau stryd i rai LED, ac araeau ffotofoltaig a chelloedd tanwydd ar eu hadeiladau. Nid yw'r Cyngor yn berchen ar dai cymdeithasol - Cymdeithas Dai Trivallis sy'n berchen ar y rhain yn bennaf.

Gan weithio mewn partneriaeth â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gosod mannau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ledled yr ardal, ac mae hefyd yn gosod mannau gwefru cerbydau trydan yn annibynnol ar gyfer ei staff a'i fflyd ei hun.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn datblygu nifer o gynlluniau teithio llesol; ar hyn o bryd mae'n adeiladu Cam 1 (wedi'i gwblhau) a Cham 2 o Lwybr Cymunedol Rhondda Fach (rhwng Maerdy a Glynrhedynog).

Mae Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor wedi cyflwyno teithiau bws â chymhorthdal yn y gorffennol, ac mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer 2024/2025 i alluogi'r Cyngor i nodi cyfleoedd i gyflwyno mesurau tebyg yn y dyfodol. Cynigiwyd teithiau bws â chymhorthdal yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd yn 2023/2024.

Rhondda Cynon Taf

# Pennod 3: System ynni’r dyfodol



# 3. System ynni'r dyfodol

## Trosolwg

Sponsors:

Delivery partners:

### Gweledigaeth

Dyfodol ynni cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon mewn ffordd gost-effeithiol ac adeiladu seilwaith ynni cadarn. Yn ganolog i'r weledigaeth hon yw ymgysylltiad a pherchnogaeth gymunedol, gan sicrhau atebion ynni hygyrch a fforddiadwy i bawb. Ein nod yw arwain mewn arloesi ynni, a chyd-fynd â thargedau sero net Llywodraeth Cymru, gan barchu ein treftadaeth naturiol a gwella llesiant cymunedol. Mae'r weledigaeth hon yn cynrychioli ymrwymiad i ddyfodol cynaliadwy, cynhwysol a llewyrchus i Rondda Cynon Taf.

### Amcanion y cynllun

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddiffinio'r amcanion canlynol ar gyfer ein cynllun:

1. Sicrhau'r gostyngiadau mwyaf posibl mewn allyriadau carbon gan leihau costau ariannol
2. Darparu system ynni gadarn, sy'n gallu cynyddu'r ddarpariaeth o ynni glân yn lleol er mwyn bodloni cyfran fwy o'r galw am ynni yn y dyfodol
3. Ymgysylltu â'r gymuned, darparu arweinyddiaeth, a pherchnogaeth o'n system ynni
4. Darparu atebion fforddiadwy i bawb wrth newid i darged Llywodraeth Cymru o sicrhau sector cyhoeddus sero net

### Deall system ynni'r dyfodol

Gwyddom fod angen inni newid ein system ynni yn Rhondda Cynon Taf i sero net erbyn 2050.

Gwyddom hefyd fod nifer o systemau ynni credadwy a deniadol ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Mae hyn yn cynnwys sut gallai arloesi effeithio ar gost technolegau dros amser, yn ogystal â phenderfyniadau polisi ehangach a fydd yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd y ffactorau hyn yn dylanwadu ar y defnydd o hydrogen, er enghraifft.

### Dadansoddiad o'r senario

Fel sail i'n cynllun, fe wnaethon ni ddefnyddio dulliau dadansoddi senarios i edrych ar sut beth fyddai system ynni sero net o dan wahanol ganlyniadau yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried y potensial ar gyfer mesurau lleihau a ffynonellau ynni posibl. Fe wnaethon ni fodelu pedair senario ynni yn y dyfodol a modelu'r ffordd fwyaf cost-effeithiol a charbon-effeithiol o ateb y galw ym mhob un. Drwy wneud hyn, roedden ni'n gallu nodi technolegau a oedd yn chwarae rhan bwysig yn yr holl sefyllfaoedd a fodelwyd yn y dyfodol. Mae'r technolegau hyn yn cynrychioli dewisiadau na fydd yn peri gofid neu ddewisiadau sy'n peri ychydig o ofid (sy'n golygu eu bod yn debygol o fod yn fwyaf cost-effeithiol ac yn cynnig manteision cymharol fawr) sy'n debygol iawn o fod yn rhannau pwysig o system ynni'r dyfodol, ni waeth beth yw ansicrwydd y dyfodol.

### Modelu defnydd

Fe wnaethon ni edrych ar sut y gellid defnyddio agweddau ar bob cynnig ynni rhwng nawr a 2050, gan greu **llwybrau defnydd**. Mae llwybrau defnydd yn nodi:

- maint y newid sydd ei angen dros amser,
- trefn y gweithgareddau y mae angen eu cynnal i gyflawni system ynni sero net.

Roedd llwybrau defnydd ar gyfer gwahanol gydrannau yn seiliedig ar amcanion ehangach y cynllun, blaenoriaethau strategol lleol a rhanbarthol, polisïau a thargedau cenedlaethol, ac roedd defnyddio'r cyd-destun hwn yn ein helpu i ddiffinio lefel addas o uchelgais, a dod â'r holl dystiolaeth hon at ei gilydd mewn cynllun gweithredu.

# 3. System ynni'r dyfodol

## Trosolwg

Sponsors:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

Delivery partners:

Y system ynni bresennol (*Pennod 2*)

**Llinell sylfaen ynni Rhondda Cynon Taf**

- Fe wnaethon ni ddefnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael i greu darlun o sut mae ynni'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio yn Rhondda Cynon Taf, gan ganolbwyntio ar y system ynni leol, a ddiffinnir mewn penodau blaenorol.

System ynni'r dyfodol (*Pennod 3*)

**Dadansoddiad o'r senario**

- Fe wnaethon ni ddiffinio paramedrau modelu fel uchafswm y solar a'r gwynt y gellir eu gosod yn Rhondda Cynon Taf.
- Fe wnaethon ni fodelu pedair senario ynni yn y dyfodol ac edrych ar y cymysgedd o dechnolegau mwyaf cost-effeithiol a charbon-effeithiol o gynhyrchu ynni i ateb y galw yn y dyfodol.
- Fe wnaethon ni gymharu'r canlyniadau i nodi cydrannau'r system ynni sy'n peri ychydig o ofid i'w hystyried yn flaenoriaethau uchel ar gyfer gweithredu yn y tymor agos.

**Modelu defnydd**

- Fe wnaethon ni fodelu cyfradd y defnydd ar gyfer cydrannau'r system ynni sy'n peri ychydig o ofid, gan ein helpu i ddeall yn ôl faint mae angen i ni gynyddu'r defnydd o wahanol dechnolegau dros amser.
- Roedden ni wedi amcangyfrif manteision eang pob senario, gan edrych ar effaith allyriadau nwyon tŷ gwydr, ansawdd yr aer a chyflogaeth yn yr ardal leol.

Cynlluniau gweithredu (*Pennod 4*)

**Cynigion ynni**

- Roedden ni wedi edrych ar **ble** y gellid blaenoriaethu cydrannau hanfodol y system ar gyfer eu defnyddio ac wedi nodi parthau ffocws blaenoriaeth, gan gyfrif am ffactorau technegol a chymdeithasol.
- Fe wnaethon ni ddefnyddio'r hyn a ddysgon ni o ddadansoddi senarios, modelu defnydd a dadansoddi parthau i greu 5/6 o gynigion ynni sy'n ffurfio'r fframwaith ar gyfer LAEP Rhondda Cynon Taf, a'r hyn a fydd yn cael sylw am y 5-6 mlynedd nesaf.

**Trywydd gweithredu**

- Fe wnaethon ni ofyn i randdeiliaid lleol feddwl am eu dylanwad dros y system ynni, a beth y gallen nhw ei wneud i gefnogi'r gwaith o gyflawni pob cynnig ynni.
- Yna, fe wnaethon ni gyfuno'r adborth hwn yn drywydd gweithredu i ddisgrifio'r ymdrech ar y cyd sydd ei hangen i gyflawni'r uchelgeisiau a'r cynigion ynni tymor agos a nodir yn LAEP Rhondda Cynon Taf.

**Ffigur 3.1: Crynodeb o'r camau a gymerwyd i gynhyrchu'r LAEP**

# 3. System ynni'r dyfodol

## Dadansoddiad o'r senario

### Crynodeb o senarios ynni'r dyfodol

Sponsors: Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region
Delivery partners: ARUP; CARBON TRUST

| Senario | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwneud Dim** | • Senario i'w gymharu sy'n ystyried gweithgareddau a ymrwymwyd iddyn nhw, ac sy'n tybio bod polisi presennol a pholisi yr ymgynghorir yn ei gylch yn mynd rhagddo ac yn parhau i fod yn gyson.<br>• Mae'r senario hwn yn darparu sefyllfa wrthffeithiol costau.<br>• Nid oes targed datgarboneiddio ar gyfer y senario hwn, ac nid ydyn ni'n ei ddefnyddio wrth fodelu optimeiddio. |
| **Sero Net Cenedlaethol** | • Mae'n defnyddio'r cyfuniad o dechnolegau carbon a chost isaf i gyrraedd targed sero net 2050 Cymru.<br>• Mae'n rhagdybio gostyngiad cymedrol o ran galw am ynni ar draws y system.<br>• Caniateir i'r model fewnforio ac allforio i'r grid trydan, mae hyn yn tybio bod y grid trydan yn cael ei ddatgarboneiddio a'i atgyfnerthu i ganiatáu ar gyfer y gofynion, sy'n debygol o fod yn gyfuniad o ynni gwynt ar y môr, CCGT hydrogen, storfa fatri ar lefel grid, niwclear (mae'r rhain yn cael eu hystyried yn asedau cenedlaethol a thu allan i gwmpas yr LAEP). |
| **Galw Isel** | • Mae'n ystyried y galw lleiaf posibl am ynni yn y dyfodol ar draws gwahanol sectorau.<br>• Mae'n edrych ar effaith cynlluniau lleihau'r defnydd o ynni (gwella adeiledd y cartref) a faint o bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.<br>• Mae'r model yn dod o hyd i'r cyfuniad o dechnolegau carbon a chost isaf i fodloni'r galw am ynni a ragwelir yn y dyfodol.<br>• Mewngludo ac allgludo trydan fel Sero Net Cenedlaethol |
| **Galw Uchel** | • Mae'n ystyried y galw uchaf am ynni yn y dyfodol ar draws gwahanol sectorau.<br>• Mae'r model yn dod o hyd i'r cyfuniad o dechnolegau carbon a chost isaf i fodloni'r galw am ynni a ragwelir yn y dyfodol.<br>• Mewngludo ac allgludo trydan fel Sero Net Cenedlaethol |
| **Hydrogen Uchel** | • Mae'n ystyried y galw tebygol uchaf posibl am ynni yn y dyfodol ar draws gwahanol sectorau<br>• Lefel uchel o gynhyrchu Hydrogen yn lleol<br>• Mae'n ystyried hydrogen ar gyfer cerbydau nwyddau trwm a galw diwydiannol |

**Ffigur 3.2: Crynodeb o senarios ynni'r dyfodol**

# 3. System ynni'r dyfodol

## Dadansoddiad o'r senario

**Senario Sero Net Cenedlaethol**

Sponsors: RHONDDA CYNON TAF; Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

Delivery partners: ARUP; CARBON TRUST


Mae Ffigur 3.3 yn dangos system ynni bosibl ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol. Mae'r system hon yn deillio o fodelu i greu'r system gost a charbon optimaidd. Rydyn ni wedi cynnal nifer o senarios i'n helpu i wneud penderfyniadau. Mae'r model optimeiddio yn llywio'r modelu defnyddio a'r camau gweithredu sy'n rhan o'r cynlluniau, **ond nid dyma'r "cynllun terfynol" ar gyfer ardal yr awdurdod lleol.** Bydd y camau gweithredu yn helpu i amcangyfrif potensial y dyfodol ac i lywio nodau, er enghraifft bydd asesiad ynni adnewyddadwy yn nodi capasiti addas ar gyfer ynni gwynt a phaneli solar ffotofoltaig yn Rhondda Cynon Taf. Mae cymhariaeth o allbynnau prif rannau'r system ynni ar gyfer pob senario ar gael yn nhabl 3.1 dros y dudalen.

Gallai mewnforion hydrogen gwyrdd a hydrogen gael eu cynhyrchu o electrolysis i wasanaethu galw trafnidiaeth a diwydiant.

Gallai fod cynnydd sylweddol mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn enwedig paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear (40 gwaith yn uwch na'r llinell sylfaen).

Gallai'r trydan a gyflenwir gan y National Grid fod 52% yn uwch na'r llinell sylfaen.

Gallai'r defnydd o drydan bob blwyddyn fod 2.9 gwaith yn fwy na'r llinell sylfaen.




**Figur 3.3: Diagram Sankey o senario Sero Net Cenedlaethol (GWh, 2050)**

Gallai'r rhan fwyaf o'r galw gan drafnidiaeth gael ei fodloni drwy wefrwyr cerbydau trydan. Mae ail-lenwi â thanwydd hydrogen yn bodloni 9% o'r galw.

Gallai 12% o'r trydan a gynhyrchir fod dros ben a chael ei allforio.

Gallai pympiau gwres (92%) ddiwallu'r cyflenwad gwres yn bennaf, gyda chyfraniadau llai gan rwydweithiau gwresogi, gwresogyddion gwrthiant, bionwy a biomas.

# 3. System ynni'r dyfodol

## Dadansoddiad o'r senario

*Sponsors:* *Delivery partners:*

### Cydrannau'r system ynni

Mae Tabl 3.1 yn rhoi trosolwg o'r amrywiadau mewn cydrannau ynni a welwyd yn y canlyniadau modelu optimeiddio ar gyfer senarios ynni yn y dyfodol, wedi'u meincnodi yn erbyn y canlyniadau sylfaenol.

Mae modelu optimeiddio yn dangos bod cynhyrchu ynni gwynt ar y tir a solar yn cynyddu'n gyson ar draws pob senario. Mae'r model yn dewis ffotofoltaig dros wynt gan ei fod yn ystyried mai dyma'r ffordd ratach o leihau carbon ond nid yw'n ystyried ffactorau mwy cymhleth eraill. Mae camau gweithredu o'r LAEP hwn yn cynnwys asesiad ynni manwl i gael darlun cliriach o gapasiti ynni adnewyddadwy pob technoleg yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r galw gan drafnidiaeth yn datgarboneiddio, yn bennaf oherwydd y cyflenwad trydan drwy fannau gwefru cerbydau trydan. Mae hydrogen yn cael ei ymgorffori yn y gymysgedd ynni ym mhob senario, gan gynnal gofynion diwydiannol a thrafnidiaeth Rhondda Cynon Taf.

Mae'r galw am wres yn cael ei ddarparu'n bennaf gan bympiau gwres, tuedd sy'n gyson ar draws pob senario. Nid yw'r broses fodelu a ddefnyddir yn ystyried y gallu (neu'r anallu) i osod pwmp gwres yn ffisegol, a allai fod yn fwy heriol mewn ardaloedd dwysach o dai teras yn benodol. Felly, dylid ystyried atebion eraill fel rhwydweithiau gwresogi, ac mae ardaloedd posibl ar gyfer rhwydweithiau gwresogi'n cael eu trafod yn yr adroddiad technegol

| Elfennau Ynni | Llinell sylfaen | Sero Net Cenedlaethol | Galw Uchel | Galw Isel | Hydrogen Uchel |
|---|---|---|---|---|---|
| Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear | 26GWh | ↑ i 1,040GWh | | | |
| Paneli solar ffotofoltaig ar y to | 11GWh | ↑ i 324GWh | | | |
| Ynni gwynt ar y tir | 397GWh | ↑ i 712GWh | | | |
| Nwy tirlenwi | 64GWh | ↑ i 68GWh | ↑ i 69GWh | ↓ i 51GWh | ↑ i 76GWh |
| Biomas | 34GWh | ↓ i 1GWh | | | |
| Treulio anaerobig | 6GWh | ↓ i 4GWh | | ↓ i 2GWh | ↓ i 4GWh |
| Mewngludo hydrogen | 0GWh | ↑ i 1GWh | | | ↑ i 3GWh |
| Electrolyserau | 0GWh | ↑ i 119GWh | ↑ i 111 GWh | ↑ i 119GWh | ↑ i 299GWh |
| Mewngludo o'r Grid | 485GWh | ↑ i 738GWh | ↑ i 753 GWh | ↓ i 401GWh | ↑ i 852GWh |
| Gwefrwyr cerbydau trydan | 1GWh | ↑ i 449GWh | ↑ i 489 GWh | ↑ i 449GWh | ↑ i 374GWh |
| Ail-lenwi â hydrogen | 0GWh | ↑ i 47GWh | ↑ i 43 GWh | ↑ i 47GWh | ↑ i 126GWh |
| Pympiau gwres | 6GWh | ↑ i 1,730GWh | | ↑ i 1070GWh | ↑ i 1,730GWh |
| Rhwydweithiau gwresogi | 0GWh | ↑ i 117GWh | | ↑ i 115GWh | ↑ i 117GWh |
| Gwresogyddion gwrthiant | 33GWh | ↓ i 26GWh | | ↓ i 11GWh | ↓ i 26GWh |

**Tabl 3.1: Cymharu senarios 2050 â'r llinell sylfaen**

# 3. System ynni'r dyfodol

## Modelu defnydd

**Effaith ar y galw am ynni**

Sponsors:


Llywodraeth Cymru Welsh Government

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

Delivery partners:

Mae modelu defnydd yn nodi pa mor gyflym y gellid defnyddio pob cydran ynni ym mhob senario optimeiddio a'r senario Gwneud Dim. Mae cyfradd y newid yn y senario Gwneud Dim yn seiliedig ar gyfraddau defnyddio presennol ac ysgogiadau polisi, tra bod y senarios eraill yn dangos llwybrau sy'n bodloni'r modelau optimeiddio, gan ystyried yr angen am dwf yn y gadwyn gyflenwi.

Mae Ffigur 3.4 yn dangos sut gallai'r galw am ynni newid dros amser yn y gwahanol sectorau ar gyfer y waelodlin, 2030 a 2050. Yna mae'r galw am ynni yn cael ei drosi'n allyriadau carbon, nifer swyddi ac ansawdd aer fel y gwelir ar y dudalen nesaf.




**Ffigur 3.4: Galw am ynni dros amser ar gyfer pob senario**

# 3. System ynni'r dyfodol

## Modelu defnydd


### Effaith ar allyriadau nwyon tŷ gwydr

Sponsors: Delivery partners:

Mae Ffigur 3.6 yn dangos y bwlch yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr rhwng y senario Gwneud Dim a'r senarios wedi'u hoptimeiddio, ac mae ein modelu defnydd yn rhoi tystiolaeth ychwanegol ar y realaeth o gyflawni'r newidiadau a awgrymir gan y modelu optimeiddio. Mae'n ein helpu i bennu'r camau gweithredu sydd eu hangen dros y pum mlynedd nesaf i'n gosod ar y llwybr tuag at sero net yn 2050. Mae newidiadau systemig mwy hefyd y bydd eu hangen i gyflawni graddfa'r newid a nodir yn y cynllun hwn.

Nid oes yr un o'r senarios yn cyrraedd sero net yn llawn erbyn 2050 oherwydd allyriadau gweddilliol. Daw'r ffynonellau mwyaf cyffredin o allyriadau gweddilliol yn 2050 o'r galw am drydan (mae amcanestyniad senarios ynni'r dyfodol ar gyfer ffactor carbon grid yn mynd yn isel iawn, ond nid yw'n cyrraedd sero na ffigur negyddol)ML17 a chynhyrchu trydan o nwy tirlenwi a threulio anaerobig. Byddai angen gwrthbwyso er mwyn cyrraedd sero net, ond nid yw hyn o fewn cwmpas yr LAEP.

Mae'r modelu defnydd hefyd yn dangos sut mae'r llwybrau hyn yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru. Ar gyfer Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n gweld bod llinell sylfaen 2023 yn ostyngiad o 59% ar lefelau 1990, gyda'r llwybrau i gyd yn perfformio'n well na'r targedau i 2050. Mae 2050 yn cael ei cholli ychydig, oherwydd bod trydan dros ben yn y rhwydwaith, ond mae'r gostyngiad cyfartalog yn 99% yn erbyn lefelau 1990.




| Senario | 2030 | 2040 | 2050 |
|---|---|---|---|
| Targedau Llywodraeth Cymru | -63% | -89% | -100% |
| Sero Net Cenedlaethol | -56% | -90% | -99% |
| Hydrogen Uchel | -57% | -91% | -99% |
| Galw Isel | -58% | -90% | -99% |
| Galw Uchel | -56% | -92% | -99% |
| Gwneud Dim | -53% | -54% | -54% |

**Ffigur 3.5: Allyriadau nwyon tŷ gwydr (kt$CO_2$e) dros amser ar gyfer pob senario o'i gymharu â'r senario Gwneud Dim (gwaelod) % y gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer pob senario o'i gymharu â thargedau lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru**

# 3. System ynni'r dyfodol

## Modelu defnydd

### Effeithiau economaidd-gymdeithasol

Sponsors: Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region

Delivery partners: ARUP; Carbon Trust

RHONDDA CYNON TAF

Gall lleihau faint o ynni rydyn ni'n ei ddefnyddio a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer cynhyrchu pŵer arwain at fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach, felly mae'n bwysig eu bod yn cael eu deall yn llawn i gefnogi penderfyniadau sy'n effeithio ar ddyfodol y system ynni. Er enghraifft, am bob £1 a fuddsoddir mewn mesurau effeithlonrwydd ynni, gall y GIG arbed £0.42 (sy'n cyfateb i arbedion blynyddol o £1.4 biliwn yn Lloegr yn unig)[M41].

### Effeithiau ar gyflogaeth

Gellir disgwyl y bydd buddsoddi mewn systemau ynni lleol yn arwain at fanteision cyflogaeth drwy ddarparu swyddi lleol, medrus. Bydd y rhain yn cynnwys swyddi uniongyrchol o gamau adeiladu a gweithredu'r datblygiad yn ogystal ag effeithiau cadwyn gyflenwi a lluosydd cysylltiedig[M42].

### Effaith ar ansawdd yr aer

Gall hefyd effeithio ar ansawdd yr aer sydd, yn ei dro, yn effeithio ar: iechyd pobl, cynhyrchiant, llesiant a'r amgylchedd, a dyna pam ei bod mor bwysig deall wrth gynllunio polisïau neu raglenni gwaith yn y dyfodol. Mae'r costau gweithgarwch a gyflwynir yn Nhabl 3.2 yn dangos amcangyfrifon ar gyfer effaith llygredd aer fesul uned o danwydd a ddefnyddir ym mhob senario ynni yn y dyfodol ac amcangyfrifon ar gyfer yr effeithiau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â phob senario ynni yn y dyfodol, o'i gymharu â'r senario Gwneud Dim

| Metrig | Gwneud Dim | Sero Net Cenedlaethol | Galw Uchel | Galw Isel | Hydrogen Uchel |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lleihau ynni (GWh, o'i gymharu â 2023)** | ~0% | -13% | -12% | -37% | -13% |
| **Costau gweithgareddau ansawdd aer cronnus rhwng 2023 a 2050 (£'miliwn) (prisiau 2022)** | £500 | £280 | £240 | £270 | £260 |
| **Effeithiau ar gyflogaeth rhwng 2023 a 2050 (cyfwerth ag amser llawn)** | 1500 | 5400 | 5400 | 7200 | 5700 |

**Tabl 3.2: Crynodeb o'r effeithiau economaidd ar gyfer pob senario: effeithiau ar gyflogaeth a chostau gweithgareddau ansawdd aer. Mae'r ffigurau a ddangosir yn ymwneud â'r cyfnod 2023 – 2050. Mae costau gweithgareddau ansawdd aer yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio prisiau 2022 ac nid ydynt wedi'u disgowntio**

# 4. System ynni leol y dyfodol

## Modelu defnydd

**Crynodeb o'r defnydd ar gyfer cydrannau'r system ynni sy'n peri ychydig o ofid**

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region

*Delivery partners:* ARUP; CARBON TRUST

Gall modelu defnydd ein helpu i ddeall yn well beth yw effeithiau pob senario dros amser. Mae'n darparu man cychwyn ar gyfer fframio'r her ac ymgymryd â dadansoddiad manylach. Rydyn ni wedi cynnwys llwybrau damcaniaethol sydd â lefel uchel o ansicrwydd gan fod llawer o ffactorau amrywiol ac elfennau anhysbys. Ni all y modelu defnydd ystyried pob ffactor, mae rhai o'r pethau a fydd yn effeithio ar ddefnydd yn cynnwys:

1) Blaengaredd ac arloesi technolegol
2) Cadwyni cyflenwi a sut maen nhw'n datblygu
3) Gweithgarwch ar raddfa fawr i ddatgarboneiddio seilwaith ar lefelau eraill: rhanbarthol, y DU a thu hwnt.

**2023:**

- **300 o adeiladau** gyda phympiau gwres wedi'u gosod
- **76,000 o gartrefi** gyda sgôr EPC D neu is
- **120** o fannau gwefru cerbydau trydan[a]
- **13 MW** o baneli solar ffotofoltäig ar y to
- **30 MW** o gapasiti paneli solar ffotofoltäig ar y ddaear
- **120 MW** o gapasiti ynni gwynt ar y tir

**Erbyn 2030:**

- **Hyd at 13,500 o adeiladau** gyda phympiau gwres wedi'u gosod
- **Hyd at 26,000 o gartrefi** wedi'u hôl-osod
- **Hyd at 2,300** o fannau gwefru cerbydau trydan[b]
- **174 MW** o baneli solar ffotofoltaig ar y to
- **Hyd at 400 MW** o gapasiti paneli solar ffotofoltäig ar y ddaear
- **Hyd at 130 MW** o gapasiti ynni gwynt ar y tir

**Erbyn 2050:**

- **Hyd at 80,000 o adeiladau** gyda phympiau gwres wedi'u gosod
- **Hyd at 62,000 o gartrefi** wedi'u hôl-osod
- **Hyd at 17,000** o fannau gwefru cerbydau trydan[b]
- **360 MW** gyda phaneli solar ffotofoltaig ar y to
- **Hyd at 1150 MW** o gapasiti paneli solar ffotofoltäig ar y ddaear
- **Hyd at 210 MW** o gapasiti ynni gwynt ar y tir

[a]Yn ôl Cofrestrfa Genedlaethol Mannau Gwefru[M43] ym mis Mai 2023 a gwybodaeth a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'n cyfeirio at fannau gwefru unigol.

[b]A thybio 4.5kWp am bob man gwefru. Sylwch y bydd y sgôr pŵer a ddewisir yn dibynnu ar leoliad ac achos defnydd. E.e. Mae gwefrwyr cyflym yn fwy addas mewn gorsafoedd gwasanaeth oherwydd hyd arhosiad y cwsmeriaid.

**Ffigur 3.6: Cyfraddau defnyddio cydrannau system ynni Rhondda Cynon Taf – senario galw uchel**

**Rhondda Cynon Taf**

# Pennod 4: Cynlluniau gweithredu



# 4. Cynlluniau gweithredu

## Cynigion ynni


Sponsors:

Delivery partners:

Fe wnaethon ni rannu’r hyn a ddysgom wrth edrych ar wahanol enghreifftiau o ddyfodol ynni a llwybrau defnyddio gyda’n rhanddeiliaid a thrafod gyda nhw pa ysgogwyr allweddol fydd yn hanfodol ar gyfer y newid i sero net. Yna fe wnaethon ni ystyried eu hadborth, ein gweledigaeth strategol a’n hamcanion, a’r cynigion ynni y cytunwyd arnyn nhw i ddod â fframwaith ynghyd ar gyfer LAEP Rhondda Cynon Taf. Mae nifer o ryngddibyniaethau a rhyngweithiadau rhwng y cynigion hyn, fel y dangosir yma. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull system gyfan gyda rhaglen gyflawni gydlynol i gyrraedd y targed sero net erbyn 2050.

**Gweledigaeth Rhondda Cynon Taf**

Dyfodol ynni cynaliadwy, sy’n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon mewn ffordd gost-effeithiol ac adeiladu seilwaith ynni cadarn. Yn ganolog i'r weledigaeth hon yw ymgysylltiad a pherchnogaeth gymunedol, gan sicrhau atebion ynni hygyrch a fforddiadwy i bawb. Ein nod yw arwain mewn arloesi ynni, a chyd-fynd â thargedau sero net Llywodraeth Cymru, gan barchu ein treftadaeth naturiol a gwella llesiant cymunedol. Mae’r weledigaeth hon yn cynrychioli ymrwymiad i ddyfodol cynaliadwy, cynhwysol a llewyrchus i Rondda Cynon Taf.




**Ffigur 4.1: Crynodeb o’r cynigion ynni a’u rhyngddibyniaethau**

# 4. Cynlluniau gweithredu

Cynigion ynni

**Cynigion ynni Rhondda Cynon Taf yn fwy manwl**

RHONDDA CYNON TAF

Sponsors: Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

Delivery partners: ARUP; CARBON TRUST

### Ôl-osod adeiladau cyfan

**Uchelgais:** Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau presennol drwy fesurau ôl-osod sy'n ceisio lleihau'r galw cyffredinol, ar yr un pryd â symud oddi wrth systemau gwresogi sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Bydd yr ymyriadau canlynol yn cael eu hystyried ar gyfer y cynnig hwn:

- Gwella adeiledd adeiladau
- Gosod pympiau gwres lle bo hynny'n briodol
- Gosod paneli solar ffotofoltäig ar y to

**Gwariant Cyfalaf: £1,400 – 7,200 miliwn**

### Defnyddio ynni adnewyddadwy

**Uchelgais:** Cynyddu allbwn ynni adnewyddadwy Rhondda Cynon Taf drwy gynnal asesiad o gapasiti a defnyddio'r canlyniadau i roi arweiniad clir ar ynni adnewyddadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd yr ymyriadau canlynol yn cael eu hystyried ar gyfer y cynnig hwn:

- Gosod paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear
- Gosod tyrbinau gwynt

**Gwariant Cyfalaf: £580 miliwn**

### Datgarboneiddio trafnidiaeth

**Uchelgais:** Lleihau'r defnydd o geir yn Rhondda Cynon Taf drwy hyrwyddo defnyddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Hwyluso'r broses o fabwysiadu cerbydau trydan drwy osod mannau gwefru ar draws yr ardal. Bydd yr ymyriadau canlynol yn cael eu hystyried ar gyfer y cynnig hwn:

- Gosod mannau gwefru cerbydau trydan
- Hyrwyddo'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy

**Gwariant Cyfalaf: £50-75 miliwn**

### Meithrin Arloesedd

**Uchelgais:** Annog amrywiaeth o atebion i ddatgarboneiddio yn Rhondda Cynon Taf drwy archwilio cyfleoedd am dechnolegau arloesol. Bydd yr ymyriadau canlynol yn cael eu hystyried ar gyfer y cynnig hwn:

- Cynlluniau peilot hydrogen
- Cynlluniau gwresogi dŵr mwyngloddiau

**Gwariant Cyfalaf: £13-33 miliwn**

### Atgyfnerthu a thrawsnewid rhwydweithiau ynni

**Uchelgais:** Creu ymyriadau i'r rhwydwaith trydan sydd eu hangen i sicrhau bod modd ateb y galw cynyddol am drydan. Creu ymyriadau i'r rhwydwaith nwy sydd eu hangen i sicrhau bod modd ateb y galw am hydrogen yn y dyfodol.

**Gwariant cyfalaf: ansicrwydd allweddol**

Mae'r gwariant cyfalaf a nodir yma yn cynrychioli'r cyfanswm sydd ei angen i gyrraedd y ffigurau yn y model optimeiddio - nid y cyfanswm y mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei wario i roi'r camau gweithredu ar waith. Dim ond y gost i osod mannau gwefru cerbydau trydan y mae'r ffigur gwariant cyfalaf ar gyfer y senario trafnidiaeth yn ei gynnwys - nid yw'n cynnwys y buddsoddiad sydd ei angen i wella llwybrau teithio llesol a rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus.

# 4. Cynlluniau gweithredu

Sponsors: Delivery partners:

## Cynigion ynni

### Nodi parthau ffocws sydd â blaenoriaeth a thrywydd gweithredu

Er bod union ffurf y system ynni ddatgarboneiddio yn 2050 yn ansicr, mae camau y gallwn eu cymryd nawr gyda sicrwydd cymharol a fydd yn ein helpu i gynnal y gallu i gyflawni ein huchelgais Sero Net 2050 a manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y newid hwn.

### Y cynllun ar dudalen

Fel man cychwyn, mae ein "cynllun ar dudalen", a ddangosir yn Ffigur 4.2 ar y dudalen nesaf, yn dangos lleoliad a graddfa'r newidiadau tymor agos sy'n angenrheidiol ar draws Rhondda Cynon Taf. Mae'r map yn tynnu sylw at saith parth modelu sydd wedi'u nodi fel parthau ffocws sydd â blaenoriaeth ar gyfer cydrannau'r system ynni sy'n peri ychydig o ofid sydd wedi'u cynnwys yng nghynigion ynni Rhondda Cynon Taf: pympiau gwres, gwefrwyr cerbydau trydan, paneli solar ffotofoltaig ar y to, paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear, gwynt ar y tir, ac ôl-osodiadau inswleiddio. Er mwyn blaenoriaethu lle dylid defnyddio pob cydran system ynni sy'n peri ychydig o ofid, cafodd pob parth modelu ei sgorio gan ddefnyddio ffactorau technegol a chymdeithasol amrywiol fel y capasiti sydd ar gael ym mhob is-orsaf a'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I gael rhagor o fanylion am y fethodoleg y tu ôl i'r "cynllun ar dudalen", trowch at yr Adroddiad Technegol.

### Trywydd gweithredu

Mae ein cynigion ynni yn disgrifio lle mae ein blaenoriaethau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma. Mae ein **trywydd gweithredu** yn ystyried pob cynnig ynni ac yn amlinellu camau galluogi hanfodol y byddwn yn eu cymryd ar y cyd gyda'n rhanddeiliaid dros y degawd nesaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn y gallwn ei gyflawni yn y 5-7 mlynedd nesaf. Mae ein trywydd gweithredu wedi cael ei ddatblygu fel cynllun deinamig sy'n cydnabod y dylanwad y bydd newidiadau cyd-destunol ehangach ar lefel genedlaethol a lleol yn ei gael ar y ffordd rydyn ni'n dewis newid i system ynni sero net, fel rheoleiddio cenedlaethol, polisi a chynlluniau strategol. O ganlyniad, rydyn ni'n disgwyl adolygu a diweddaru ein trywydd yn rheolaidd ar sail y dibyniaethau hyn.

Bydd pob cam gweithredu yn gofyn am bedair elfen allweddol i fod yn llwyddiannus:

- Cael a defnyddio cyllid yn effeithiol
- Fframweithiau polisi cryf a chyson
- Nodi perchnogion cyflawni
- Ymgysylltu â'r gymuned

Fel Rhondda Cynon Taf, bydd ein rôl o ran cyflawni pob cynnig ynni yn amrywio. Mae rhai camau gweithredu'n galw am weithredu gan y cyngor wrth gyflawni rhaglenni'n faterol, tra bo eraill yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor weithredu fel hwylusydd ar gyfer newid sy'n cael ei yrru gan y farchnad.

Drwy'r broses LAEP, fe wnaethon ni hefyd nodi mai'r ffordd orau o gyflawni rhai o'r camau gweithredu yw drwy'r bartneriaeth ranbarthol. Y rheswm am hyn yw bod arbedion maint, a byddai'n fwy effeithlon cael adnoddau cyhoeddus cydgysylltiedig a phenodol. Bydd y camau gweithredu rhanbarthol yn gofyn am waith dylunio manwl, i greu prosiectau a rhaglenni, i'w symud ymlaen i'r cam gweithredu - gan ganolbwyntio i ddechrau ar yr elfennau llwyddiannus. Bydd y cyngor yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y dyfodol.

Mae perchnogaeth leol yn elfen sy'n cael sylw allweddol drwy gydol y cynllun hwn, a lle bo'n bosibl, dylai'r camau a gymerir fanteisio ar y cynnydd a wnaed drwy Gytundeb Cydweithredu diweddar Llywodraeth Cymru[M63] gyda Phlaid Cymru, sy'n cynnwys nodau allweddol ar fynd i'r afael â newid hinsawdd mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision lleol gorau posibl.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi rhagor o fanylion am bob un o'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd o dan bob cynnig ynni, yn ogystal â'n prif ofynion ar gyfer eraill. Oherwydd ansicrwydd cymharol camau gweithredu tymor hirach, rydyn ni wedi dewis peidio â chanolbwyntio ar gwmpasu manwl o'r rhain yn yr adroddiad hwn ac yn hytrach, canolbwyntio ar y camau gweithredu rydyn ni'n bwriadu eu cyflawni yn y tymor byr, yn amodol ar gefnogaeth briodol. I gael rhagor o fanylion am y cynllun gweithredu, trowch at bennod 5 yn ein Hadroddiad Technegol.

# 4. Cynlluniau gweithredu

I gefnogi'r gwaith o drawsnewid y system ynni, gall prosiectau peilot fod yn ddefnyddiol. Mae'r cynllun ar dudalen isod yn tynnu sylw at feysydd a allai gynnig ffocws defnyddiol i'r cynlluniau peilot hyn. Mae Ffigur 0.3 yn nodi parthau sydd ag amodau arbennig o ffafriol ar gyfer cydrannau ynni penodol, sy'n golygu eu bod yn lleoliadau delfrydol ar gyfer astudiaethau peilot. Mae'r tablau cryno (isod) yn cynnwys manylion (i) y cyfle capasiti wedi'i osod, (ii) y buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer pob cydran ac (iii) cyfanswm y buddsoddiad sy'n angenrheidiol ar gyfer gosod y cydrannau ynni a'r seilwaith rhwydwaith trydan ym mhob parth erbyn 2030. Mae'r ystodau wedi'u cyfrifo drwy gymryd y canlyniadau isaf ac uchaf o bob senario ynni'r dyfodol a fodelwyd (gweler yr Adroddiad Technegol am ragor o fanylion). Sylwer: dylid dal ati i ymyrryd mewn parthau 'Cynnydd' er mwyn trosglwyddo'r ardal leol i sero net.


RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:* ARUP; CARBON TRUST

**Cydrannau ynni a awgrymir i'w treialu ym mhob parth**

| Gwefrwr cerbydau trydan | Ynni gwynt ar y tir | Mesurau inswleiddio |
|---|---|---|




| A | Maerdy (i) | (ii) |
|---|---|---|
| | 0.35 - 0.55MW (60 - 90 o bympiau gwres) | £0.26 - 0.41m |
| | 0.06 - 0.07MW (16 - 18 o wefrwyr) | £0.05 - 0.06m |

(iii) Cyfanswm Parth A £ 3 - 14m

| B | Middle Fan (i) | (ii) |
|---|---|---|
| | 1.3 - 2.0MW (210 - 340 o bympiau gwres) | £0.9 - 1.5m |
| | 0.16 - 0.21MW (40-50 o wefrwyr) | £0.13 - 0.17m |

(iii) Cyfanswm Parth B £14 - 72m

| C | Ynysfeio (i) | (ii) |
|---|---|---|
| | 2,500 - 2,800 o gartrefi | £10 - 140k |

(iii) Cyfanswm Parth C £29 - 158m

| D | Tonypandy (i) | (ii) |
|---|---|---|
| | 4,500 - 5,500 o gartrefi | £20 - 270m |

(iii) Cyfanswm Parth D £56 - 300m

| E | Prif is-orsaf Glan-bad (i) | (ii) |
|---|---|---|
| | 17MW | £18m |
| | 78MW | £34m |
| | 16MW (2050) | £18m (2050) |

(iii) Cyfanswm Parth E £78 - 286m

| F | Prif is-orsaf Tonysguboriau (i) | (ii) |
|---|---|---|
| | 12MW | £13m |

(iii) Cyfanswm Parth F £37 - 120m

| G | Prif is-orsaf Pencoed (i) | (ii) |
|---|---|---|
| | 4MW | £4.7m |
| | 6MW (2050) | £7m (2050) |

(iii) Cyfanswm Parth G £ 24 - 98m

**Cydrannau ynni a awgrymir i'w treialu ym mhob parth**

| Pympiau gwres | Paneli solar ffotofoltaig ar y ddaear | Paneli solar ffotofoltaig ar y to |
|---|---|---|

**Ffigur 4.2: Cynrychiolaeth ofodol o gyfleoedd Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys uchelgais a buddsoddiad 2030 (miliwn £). Mae ffiniau parthau'n cael eu diffinio yn ôl ardaloedd gwasanaeth prif is-orsafoedd.**

# 4. Cynlluniau gweithredu

## Trywydd gweithredu

**Polisïau a thargedau cenedlaethol**

*Sponsors:* *Delivery partners:*

| | Cam Gweithredu | 2024 – 2030 |
|---|---|---|
| **Targedau cenedlaethol** | Hyd at 1GW o hydrogen electrolytig wedi'i ddiogelu (2025) [y DU][M44] | |
| | Penderfyniad ynglŷn â defnyddio hydrogen i wresogi adeiladau (2026) [y DU][M45] | |
| | Hyd at 10GW o gapasiti hydrogen (50% electrolytig) [y DU][M44] | Symud ymlaen tuag at 2030 |
| | Hyd at 50GW o gapasiti gwynt ar y môr, gan gynnwys hyd at 5GW o ynni gwynt arnofiol arloesol (2030) [y DU][M44] | Symud ymlaen tuag at 2030 |
| | Mae ymgynghoriad Safon Cartrefi'r Dyfodol yn awgrymu bod yr holl alw am wres a dŵr poeth yn cael ei ddiwallu drwy ffynonellau carbon isel mewn adeiladau newydd (2025) [M46] | |
| | Pob cartref cymdeithasol newydd a adeiladir yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 heb wres tanwydd ffosil (o 2025 ymlaen)[M47] | |
| | Pob cartref cymdeithasol presennol i fod â chynllun ar gyfer lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwella perfformiad ynni (2027) [Cymru][M48] | |
| | Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gostwng 37% erbyn 2025 (o'i gymharu â 1990) [Cymru][M49] | |
| | Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gostwng 63% erbyn 2030 (o'i gymharu â 1990) [Cymru] [M49] | Symud ymlaen tuag at 2030 |
| | Cwrdd â'r hyn sy'n cyfateb i 100% o'r anghenion trydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035 [Cymru][M26] | Symud ymlaen tuag at 2035 |
| | 1.5GW o gapasiti adnewyddadwy i fod dan berchnogaeth leol (heb gynnwys Pympiau gwres) (2035) [Cymru] [M26] | Symud ymlaen tuag at 2035 |
| | 580,000 o bympiau gwres i'w gosod yng Nghymru erbyn 2035, yn dibynnu ar gymorth wedi'i gynyddu gan Lywodraeth y DU a gostyngiadau yng nghost technoleg[x] (2035) [Cymru] [M26] | Symud ymlaen tuag at 2035 |

# 4. Cynlluniau gweithredu

## Trywydd gweithredu

**Polisïau a thargedau cenedlaethol**

Sponsors: Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

Delivery partners: ARUP; Carbon Trust

| | Cam Gweithredu | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Targedau cenedlaethol** | Sgôr EPC o E i rentu unrhyw eiddo (o 2020 ymlaen) a sgôr EPC o C o 2030 ymlaen [y DU][M51] | | | | | | | |
| | 1 man gwefru cyhoeddus ar gyfer pob 7 i 11 cerbyd trydan (2025) [Cymru][M23] | | | | | | | |
| | Gwefru cyflym ar gael bob 20 milltir ar y gefnffordd strategol (2025) [Cymru] [M23] | | | | | | | |
| | Milltiroedd o deithio mewn car/fesul unigolyn yn gostwng 10% (2030) [Cymru] [M03] | Symud ymlaen tuag at 2030 | | | | | | |
| | 80% o geir newydd a 70% o faniau newydd fydd yn cael eu gwerthu i fod yn ddi-allyriadau (2030) (mandad ZEV) [y DU] [M53] | Symud ymlaen tuag at 2030 | | | | | | |
| | 100% o geir a faniau newydd fydd yn cael eu gwerthu i fod yn ddi-allyriadau (2035) (mandad ZEV) [y DU] [M53] | Symud ymlaen tuag at 2035 | | | | | | |
| | Sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 [Cymru][M23] | Symud ymlaen tuag at 2030 | | | | | | |

# 4. Cynlluniau gweithredu

RHONDDA CYNON TAF

*Sponsors:*
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

*Delivery partners:*
ARUP
CARBON TRUST

## Trywydd gweithredu

**Camau galluogi**

N Gweithredir camau ar raddfa genedlaethol, ar draws Cymru gyfan

R Gweithredir camau ar raddfa ranbarthol, ar draws awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

L Gweithredir camau ar raddfa leol, ar draws Rhondda Cynon Taf

↻ Mae'r amserlen ar gyfer y gweithredu yn mynd rhagddi

| | Cam Gweithredu | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | Arweinyddion arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau galluogi | E.1.1: Datblygu strwythur llywodraethu a fframwaith rheoli perfformiad | | | | | | | | R |
| | E.1.2: Hwyluso'r gwaith o fonitro'r LAEP ar draws y Rhanbarth | | Adolygu'n flynyddol ↻ | | | | | | R |
| | E.1.3: Datblygu cynllun busnes ar gyfer cyflwyno'r LAEPau ar draws y rhanbarth | | | | | | | | R |
| | E.2.1: Datblygu Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol[MC33] | | | | | | | | N |
| | E.2.2: Datblygu cynllun ynni cenedlaethol | | | | | | | | R, N |
| | E.3.1: Mapio a nodi anghenion o ran sgiliau a llafur | | | Adolygu bob 5 mlynedd | | | | | R, N |
| | E.3.2: Adolygu a datblygu rhaglenni addysgol i gwrdd â'r sgiliau sydd eu hangen | | | | | | | | R, N |
| | E.3.3: Datblygu strategaeth gyfathrebu i hyrwyddo swyddi | | | | | | | ↻ | R |
| | E.3.4: Canfod yr anghenion o ran y gadwyn gyflenwi | | | Adolygu bob 5 mlynedd | | | | | R, N |
| | E.4.1: Ymchwilio i fframweithiau caffael a buddsoddi posibl y gellid eu hystyried ar gyfer prosiectau mwy | | | | | | | | R |

# 4. Cynlluniau gweithredu

Sponsors: Llywodraeth Cymru / Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd / Cardiff Capital Region

Delivery partners: ARUP; Carbon Trust

RHONDDA CYNON TAF


## Trywydd gweithredu

**Camau galluogi**

| | |
|---|---|
| N | Gweithredir camau ar raddfa genedlaethol, ar draws Cymru gyfan |
| L | Gweithredir camau ar raddfa leol, ar draws Rhondda Cynon Taf |
| R | Gweithredir camau ar raddfa ranbarthol, ar draws awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| | Mae'r amserlen ar gyfer y gweithredu yn mynd rhagddi |

**Camau galluogi**

| Cam Gweithredu | Arweinyddiaeth arfaethedig |
|---|---|
| E.4.2: Rhannu arferion gorau ar gyfer datgarboneiddio ynni | R |
| E.4.3: Cael gafael ar gyllid ar gyfer datgarboneiddio ynni | R |
| C.1.1: Cydlynu rhwydwaith i gefnogi busnesau i ddatgarboneiddio | R |
| C.1.2: Datblygu rhaglen ymgysylltu diwydiannol i ddatgarboneiddio diwydiant | R |



# 4. Cynlluniau gweithredu

Sponsors:

Delivery partners:

## Trywydd gweithredu

**Ôl-osod adeiladau cyfan**

- N – Gweithredir camau ar raddfa genedlaethol, ar draws Cymru gyfan
- R – Gweithredir camau ar raddfa ranbarthol, ar draws awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- L – Gweithredir camau ar raddfa leol, ar draws Rhondda Cynon Taf
- Mae'r amserlen ar gyfer y gweithredu yn mynd rhagddi

**Ôl-osod adeiladau cyfan**

| Cam Gweithredu | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | Arweinyddion arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B.1.1: Datblygu cynllun blaenoriaethu ôl-osod | | | Adolygu'n flynyddol | | | | | R |
| B.1.2: Datblygu cynllun cyflawni ar gyfer ôl-osod eiddo i berchen-feddianwyr | | | Adolygu bob 5 mlynedd | | | | | R N |
| B.1.3: Adolygu'r rhaglen ECOFLEX bresennol | | | Adolygu'n flynyddol | | | | | R |
| B.1.4: Blaenoriaethu atal lleithder ac inswleiddio | | | | | | | | L |
| B.1.5: Integreiddio paneli solar ffotofoltaig mewn gwaith ôl-osod adeiladau addas | | | | | | | | L |
| B.1.6: Cynyddu graddfa feddiannaeth mewn adeiladau wedi'u hôl-osod | | | | | | | | L |
| B.1.7: Ystyried mecanweithiau ar gyfer annog mwy o bobl i ddefnyddio ôl-osod | | | | | | | | N |
| B.1.8: Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ORP[M67] drwy Hyb Di-garbon Cymru[M66] | | | | | | | | N |

# 4. Cynlluniau gweithredu

## Trywydd gweithredu

**Ôl-osod adeiladau cyfan**

Sponsors: Llywodraeth Cymru / Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd / Cardiff Capital Region

Delivery partners: ARUP; Carbon Trust

- N — Gweithredir camau ar raddfa genedlaethol, ar draws Cymru gyfan
- R — Gweithredir camau ar raddfa ranbarthol, ar draws awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- L — Gweithredir camau ar raddfa leol, ar draws Rhondda Cynon Taf
- ⟳ — Mae'r amserlen ar gyfer y gweithredu yn mynd rhagddi

**Ôl-osod adeiladau cyfan**

| Cam Gweithredu | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | Arweinyddion arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B.2.1: Cyfeirio at neu ddatblygu hwb gwybodaeth ôl-osod ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer defnyddwyr | ■ | ■ | | | | | | R, N |
| B.2.2: Gweithio gyda'r trydydd sector i wella effeithlonrwydd adeiladau | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | L |
| B.3.2: Darparu hyfforddiant i Reolwyr Adeiladu | ■ | ■ | | | | | | L |
| B.4.1: Rhoi cyngor i drigolion | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | L |
| B.4.2: Y Cyngor i ddarparu cymaint o grantiau â phosibl ar gyfer ôl-osod tai cyfan, gan flaenoriaethu dull adeiledd yn gyntaf. | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ ⟳ | L |
| B.5.1: Nodi cyfyngiadau cynllunio penodol sy'n cyfyngu ar gynnydd i sero net | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ ⟳ | N |
| B.5.2: Ystyried rheoliadau adeiladu tynnach i gefnogi'r gwaith o ddarparu adeiladau sy'n barod ar gyfer sero net | ■ | ■ | | | | | | N |

# 4. Cynlluniau gweithredu

## Trywydd gweithredu

**Defnyddio ynni adnewyddadwy**

- N – Gweithredir camau ar raddfa genedlaethol, ar draws Cymru gyfan
- R – Gweithredir camau ar raddfa ranbarthol, ar draws awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- L – Gweithredir camau ar raddfa leol, ar draws Rhondda Cynon Taf
- ↻ – Mae'r amserlen ar gyfer y gweithredu yn mynd rhagddi

*Sponsors:* Llywodraeth Cymru Welsh Government; Prifddinas Ranbarth Caerdydd Cardiff Capital Region; Rhondda Cynon Taf

*Delivery partners:* ARUP; Carbon Trust

**Defnyddio ynni adnewyddadwy**

| Cam Gweithredu | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | Arweinyddion arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R.1.1: Creu prosbectws buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy rhanbarthol | ■ | | | | | | | R |
| R.1.2: Denu buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy (gan gynnwys prosiectau cymunedol) | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ ↻ | R |
